Cronfa Treftadaeth

Heritage Fund

# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022–2023

HC 1567
SG/2023/97

# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022–2023 Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 34 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc, 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 35 (5) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

I'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2023 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin
Wedi'i roi gerbron Senedd Yr Alban gan Weinidog Yr Alban
ar 17 Gorffennaf 2023
Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 17 Gorffennaf 2023
Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 22 Medi 2023

HC 1567
SG/2023/97

**© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2023**
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom:
Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
4th Floor
Cannon Bridge House
25 Dowgate Hill
Llundain EC4R 2YA
Y Deyrnas Unedig

ISBN 978-1-5286-4216-3
E02922622 07/23

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

.

# Gwella a hyrwyddo treftadaeth i bawb

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o dreftadaeth y DU. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Mae ein rhwydwaith eang o staff yn sicrhau bod y gwahaniaethau mewn cymeriad treftadaeth ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hadlewyrchu yn ein penderfyniadau. Mae ein harbenigedd DU gyfan yn cefnogi ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn dosbarthu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar ffurf grantiau rhwng £3,000 a £5miliwn ac yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n dod â buddion i bobl, lleoedd a'n hamgylchedd naturiol.

Rydym yn darparu arian ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau ac yn creu partneriaethau gyda sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gael ein harian i ble y mae ei angen fwyaf.

Gallwch ddarganfod mwy yn www.heritagefund.org.uk/cy

Ariannu gan y Loteri Genedlaethol

**£8.3bn** wedi'i fuddsoddi ers 1994

**46,000** o brosiectau wedi'u cefnogi

Cyfanswm yr ariannu a ddosbarthwyd (gan gynnwys cymorth grant)

**£8.8bn** wedi'i fuddsoddi ers 1994

**51,000** o brosiectau wedi'u cefnogi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** | **3** |
| Adroddiad perfformiad | 4 |
| Adroddiad atebolrwydd | 14 |
| Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol | 34 |
| **Y datganiadau ariannol** | **39** |
| Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net | 40 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | 41 |
| Datganiad o Lifoedd Arian Parod | 42 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti | 42 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 43 |
| **Cyfarwyddiadau polisi** | **55** |
| **Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn** | **63** |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am brif amcanion a strategaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (Dosbarthiad Loteri), a elwir fel arall yn Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Mae'r adran drosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am ddibenion a gweithgareddau'r sefydliad, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

### Ein perfformiad yn 2022–2023: Datganiad gan y Prif Weithredwr

Yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn credu mewn nerth treftadaeth i wneud bywydau pobl yn well. Mae treftadaeth yn dod â harddwch a chymeriad i'n trefi, ein cefn gwlad a'n dinasoedd; mae'n ysgogi ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn mewn cymunedau; ac yn ysbrydoli pobl o bob oed trwy gysylltiad â'n hanes amrywiol. Mae buddsoddi mewn treftadaeth yn cefnogi sgiliau a swyddi, yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb daearyddol, ac yn gyrru twristiaeth, gan hyrwyddo'r DU ar y llwyfan fyd-eang.

Mae'n fraint enfawr i weithio yn y maes hwn gyda phobl ag angerdd ac ymrwymiad mawr, ac i arwain cydweithwyr sy'n teimlo mor gryf â mi am bŵer treftadaeth i gynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth i bobl a chymunedau ar draws y DU. A bu hon yn flwyddyn eithriadol o brysur wrth i ni ddatblygu ein strategaeth newydd, ochr yn ochr â'n gweithgareddau dyfarnu grantiau craidd a llawer o lwyddiannau eraill.

Dim ond diolch i ymroddiad, arbenigedd ac ymrwymiad fy holl gydweithwyr yn y Gronfa Treftadaeth y bu'r cyflawniad hwn yn bosib, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi chwarae rhan yn y llwyddiannau niferus a amlinellir trwy gydol yr adroddiad hwn.

Y llynedd fe wnaethom osod y pum blaenoriaeth ganlynol yn ein cynllun busnes:

1. Cyflwyno ariannu'r Loteri Genedlaethol a chymorth grant gyda ffocws ar adferiad y sector treftadaeth, cydnerthedd a lle

Parhaodd ein hariannu ar gyfer prosiectau Loteri Genedlaethol, gan gynnig grantiau o £3,000 i £10,000, £10,000 i £250,000 a £250,000 i £5miliwn.Bu i grantiau cyntaf o fwy na £5miliwn o dan y Grantiau Treftadaeth Gorwelion gefnogi prosiectau eithriadol i gyflwyno trawsnewid, cydweithredu ac arloesi ar raddfa eang, ar safleoedd ar draws y DU.

Yn 2022–2023 cwblhawyd a lansiwyd nifer o fuddsoddiadau hirdymor y Gronfa Treftadaeth. Yn Lloegr roedd y rhain yn cynnwys ail-agor Amgueddfa Manceinion ym mis Chwefror 2023, yn dilyn cyfnod cau o bron i ddwy flynedd ar gyfer eu prosiect ailddatblygu 'hello future'. Cefnogodd ein hariannu y First Light Pavilion yn Jodrell Bank ac ailagor Cleveland Pools yng Nghaerfaddon, lido hynaf Prydain.

Yng Nghymru cefnogwyd agoriad yr archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y DU yn Aberystwyth ac agoriad y dirwedd raglywiaeth yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol. Yn Yr Alban fe ailagorodd Casgliad Burrell gyda buddsoddiad o £16.5miliwn gan y Gronfa Treftadaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, cafodd bloc mynediad Wyrcws Enniskillen ei adfer yn sympathetig diolch i £2.5miliwn gan y Loteri Genedlaethol, a'i ailagor i ddarparu cyfleuster menter busnes newydd a chanolbwynt i dreftadaeth.

Gwnaethom gynnydd sylweddol gyda'n Grantiau Treftadaeth Gorwelion, sef buddsoddiad hirdymor uchelgeisiol o £50miliwn mewn pum prosiect a fydd yn cyflwyno trawsnewidiadau treftadaeth arloesol, seiliedig ar le, er budd pobl a threftadaeth ym mhob cwr o'r DU. Cadarnhawyd y dyfarniad o £8.6miliwn i Peatland Progress ar gyfer prynu darn o dir – Speechly's Farm – a fydd yn dod â dau hanner y Fen Fawr ynghyd a gweld tir yn cael ei drawsnewid yn gynefin ychwanegol ar gyfer bywyd gwyllt dan fygythiad.

Trwy gydol y flwyddyn, bu i ni ddarparu cymorth cydnerthedd ac adferiad ar ei newydd wedd trwy ein Rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Darparodd hyn ariannu ar gyfer cymorth arbenigol gydag adferiad yn sgil y pandemig, mewn meysydd fel cynllunio busnes, codi arian a llywodraethu.Bu hefyd yn gymorth wrth sefydlu cefnogaeth gan gymheiriaid a rhwydweithiau a ddylunnir i helpu sefydliadau treftadaeth i lywio'r newid yn yr amgylchedd economaidd.

Pan effeithiwyd ar brosiectau treftadaeth a oedd yn y cam cyflwyno gan faterion o ran cost a chyflenwi y tu hwnt i reolaeth y grantï, fe wnaethom barhau i gefnogi'n hyblyg y newidiadau y gofynnwyd amdanynt i gwmpas prosiectau. Ac fe wnaethom fuddsoddi mewn ychwanegu at grantiau i helpu sefydliadau treftadaeth i gwblhau prosiectau cyfalaf.

Fe wnaethom barhau i fuddsoddi arian y Loteri Genedlaethol i gefnogi digwyddiadau allweddol, gan gynnwys:

- yn Birmingham, ein grant o £3miliwn ar gyfer y rhaglen ddiwylliannol chwe mis o gwmpas Gemau'r Gymanwlad 2022. Bu i hyn arddangos y dreftadaeth gyfoethog a phwysig sy'n rhoi ei diwylliant unigryw i Birmingham a Gorllewin Canolbarth Lloegr a chreu effaith barhaus ar y rhanbarth y tu hwnt i'r Gemau.
- ariannu i gefnogi Dinas Diwylliant y DU, gan gynnwys cyfraniad o £3miliwn i Coventry i gefnogi ei Rhaglen Green Futures uchelgeisiol, gan greu gwaddol sy'n cysylltu pobl, diwylliant a natur yn llwyddiannus. Wrth edrych tuag at y dyfodol, rydym yn bwriadu buddsoddi hyd at £5miliwn yn Bradford, Dinas Diwylliant y DU 2025.
- dyfarnwyd grant o £250,000 i Gyngor Dinas Lerpwl i gefnogi elfennau treftadaeth y rhaglen ddiwylliannol ar gyfer Eurovision 2023.

Amgueddfeydd ac Orielau Yr Alban a phartneriaid eraill ar draws y DU. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd yr ymgyrch wedi cefnogi dros 30 o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau ar draws y DU i fod yn fwy cynhwysol a chydnerth, gan gyflwyno prosiectau sy'n ailddarganfod casgliadau, yn dod â nhw i gynulleidfaoedd newydd ac yn sicrhau y cânt eu rheoli a'u cadw at safon uchel. Bydd yn parhau i mewn i'r flwyddyn adrodd 2023–2024.

Lansiwyd ein Cronfa Arloesedd, gan weithio gyda Sefydliad Young i ddylunio rhaglen sy'n galluogi sefydliadau treftadaeth i fuddsoddi mewn syniadau newydd, gyda ffocws cynnar ar arloesi yn y gweithlu.

Bu i ni barhau i fuddsoddi yn ein Rhaglen Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth lwyddiannus, gan gynnwys cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau arweinyddiaeth ddigidol ar gyfer rheolwyr treftadaeth, datblygu hyb Adnoddau Treftadaeth Ddigidol ac ym mis Chwefror 2023, cefnogi Prifysgol Lincoln i gyflwyno'r gynhadledd Heritage Dot a ddenodd gynulleidfa ryngwladol.

### 2. Datblygu strategaethau gan gynnwys ehangu cydweithio yn y sector a phartneriaethau strategol

Carreg filltir arwyddocaol eleni oedd lansio ein strategaeth 10 mlynedd newydd, Treftadaeth 2033.

Roedd ein dull o ddatblygu'r strategaeth yn gynhwysfawr: ymgynghorwyd â thros 4,000 o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd, cynhaliwyd gweithdai gyda'n Bwrdd a'n pwyllgorau rhanbarthol, a chynhaliwyd cynhadledd i'n staff i gyd yn Manchester Football Museum ym mis Hydref 2022. Fe wnaethom hefyd alw'n helaeth ar dystiolaeth a mewnwelediad a ddarparwyd gan Pwls Treftadaeth, ein prosiect ymchwil cydweithredol ar gyfer y sector treftadaeth, a ddefnyddiwyd i gyfeirio datblygiad y strategaeth drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r strategaeth Treftadaeth 2033 a ddeilliodd o hyn yn pennu gweledigaeth newydd i dreftadaeth sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i chynnal ac y gofalir amdani ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol Mae'n nodi ein hymrwymiad y byddwn, erbyn 2033, wedi buddsoddi £3.6biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, lleoedd a chymunedau.

Bydd pedair egwyddor fuddsoddi newydd yn sail i bopeth a wnawn. Dyma nhw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Byddwn hefyd yn agored i gyfleoedd i fynd i'r afael â materion ar raddfa fawr, a ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau eraill er mwyn i'n harian gyrraedd lle mae ei angen fwyaf.

Lansiwyd Heritage 2033 ym mis Mawrth drwy ddigwyddiadau ar draws y DU ac ymgysylltu digidol i gyrraedd ystod eang o randdeiliaid.

Eleni hefyd oedd y rownd gyflwyno derfynol ar gyfer ein partneriaeth Future Parks Accelerator rhwng y Gronfa Treftadaeth a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gan weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a'u partneriaid ar draws y DU, canolbwyntiodd y rhaglen ar adnoddau naturiol mewn ardaloedd trefol, a sicrhau bod mannau gwyrdd o safon yn hygyrch i bawb, nawr ac yn y dyfodol. Darparodd y gwerthusiad o'r rhaglen dystiolaeth bendant newydd o bwysigrwydd mannau gwyrdd a gwerth buddsoddi ynddynt, a byddwn yn datblygu hyn ymhellach fel rhan o Treftadaeth 2033. I nodi penllanw'r prosiect, cynhaliodd y Gronfa Treftadaeth, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ei digwyddiad ar-lein mwyaf erioed. Roedd 1,250 o fynychwyr cofrestredig a fu'n rhannu dysgu a mewnwelediad ar fannau gwyrdd trefol.

Ym mis Chwefror 2023 fe wnaethom gyhoeddi buddsoddiad gyda'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol i gynyddu gallu mannau addoli i ofalu am eu treftadaeth. Mae'r fenter £1.9miliwn, sy'n targedu Cymru, Yr Alban a gogledd-orllewin Lloegr, yn dilyn menter lwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon o'r enw 'Treasure Island'. Bydd grantiau bach a chyngor mentora'n cefnogi cymunedau sydd â diddordeb mewn ymgymryd â rheolaeth ar adeiladau, yn ogystal â chynulleidfaoedd sy'n brwydro i gadw adeiladau cyhoeddus mewn cyflwr da.

I goffau Jiwbilî Blatinwm y Frenhines ym mis Mehefin 2022 bu i ni ymrwymo £7miliwn i helpu cymunedau ar draws y DU i ailgysylltu â byd natur a chefnogi pobl ifanc i gymryd eu cam cyntaf tuag at yrfa ym maes treftadaeth naturiol. Rhannwyd y buddsoddiad hwn fel a ganlyn:

- £5miliwn gyda'r Ymddiriedolaethau Natur trwy Nextdoor Nature i helpu cymunedau i wella byd natur "ar garreg eu drws", yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd a/neu o ran natur, fel bod mannau gwyrdd yn ffynnu fel etifeddiaeth y Jiwbilî Blatinwm.
- £2filiwn trwy gytundeb ariannu gyda Groundwork, i gefnogi hyfforddeiaethau â thâl mewn amrywiaeth o elusennau amgylcheddol ar gyfer 70 o bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol a difreintiedig. O ganlyniad i'r diddordeb cryf a'r niferoedd fu'n manteisio ar y Rhaglen Newydd i Natur hon bu i'n Bwrdd fuddsoddi £1miliwn pellach i ddathlu Coroni'r Brenin ym mis Mai 2023.

Gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith i ddarparu ariannu cymorth grant ar gyfer treftadaeth, gan gynnwys parhau i ddarparu ariannu adferiad COVID-19 ar ran DCMS, ail rownd o gyllid Green Recovery Challenge ar ran Defra a nifer o raglenni grant ar ran Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth naturiol. Er ei fod yn llawer llai o ran maint na'n gweithgaredd craidd y Loteri Genedlaethol, mae'r gwaith hwn wedi darparu cymorth ychwanegol mawr ei angen i sefydliadau treftadaeth a gwella ein henw da fel corff gwneud grantiau treftadaeth arbenigol.

### 3. Ymwreiddio cynaladwyedd amgylcheddol yn ein buddsoddiadau a'n gweithrediadau

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu ein cynllun datgarboneiddio manwl hyd at 2030 a thargedau cysylltiedig ar gyfer gostyngiadau. Gwnaethom hefyd ymrwymo i leihau effaith carbon ein buddsoddiadau erbyn 2050, wrth i Treftadaeth 2033 atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r amgylchedd: "diogelu'r amgylchedd" yw un o'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i'n buddsoddiadau yn y dyfodol.

### 4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn ein buddsoddiad a'n gweithrediadau

Mae EDI yn parhau i fod yn rhan annatod o'n trefniadau rhoi grantiau, llywodraethu, a gwerthoedd ac ymddygiad gweithlu.

Eleni fe wnaethom gwblhau rhaglen ymchwil dwy flynedd ar grwpiau sydd heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol gan ein hariannu ar hyn o bryd ac yn hanesyddol. Bu i ni gaffael mewnwelediad gwerthfawr i'r ffordd y mae'r sefydliadau hyn yn gweld treftadaeth, nodi rhai bylchau mewn dealltwriaeth a datblygu mwy o ymwybyddiaeth o anghenion a disgwyliadau. Bu argymhellion yr adroddiad yn gymorth wrth gyfeirio datblygiad Treftadaeth 2033 a nodir "cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad" fel un o'i bedair blaenoriaeth.

Trwy'r broses o ddatblygu'r strategaeth, bu i ni ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i gywain yr ystod ehangaf o safbwyntiau a mewnwelediadau ynghylch sut y gall y Gronfa Treftadaeth fod yn fwy cynhwysol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n staff, grantïon ac ymgeiswyr,

gwrando arnynt ac ymgynghori â nhw i gyflawni gwell gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad o fewn y Gronfa Treftadaeth ei hun, yn ein gwaith o roi grantiau ac ar draws y sector treftadaeth.

Fe wnaethom hefyd barhau i gefnogi mentrau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau posib i fynediad i waith yn y sector treftadaeth, gan gynnwys ein rhaglen lwyddiannus o leoliadau ar gyfer Cymrodorion Windsor, interniaid Change 100 Leonard Cheshire a phobl ifanc sy'n gwneud cais i brosiectau 2027 a Corra.

5. Cwblhau ac ymwreiddio ein system rheoli buddsoddiadau newydd

Cyflawniad arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd symud yn llwyddiannus o'n system rheoli grantiau etifeddol i wasanaeth rheoli buddsoddiadau newydd. Bydd hyn yn rhoi profiad gwell o lawer i ddefnyddwyr, yn cynyddu ein heffeithlonrwydd ac yn darparu llwyfan fwy hyblyg ar gyfer gwneud grantiau yn y dyfodol, gan wella ansawdd a chysondeb yr wybodaeth reoli a gasglwn.

Rwy'n falch o bopeth yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf, ac yn enwedig o uchelgais Treftadaeth 2033. Mae ein gwaith dros dreftadaeth yn fwy perthnasol ac amserol nag erioed, a thrwy weithio gyda'n partneriaid niferus, edrychaf ymlaen at gyflawni ein gweledigaeth a gael treftadaeth sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i chynnal ac y gofalir amdani ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

## Ein diben a gweithgareddau

Genedlaethol (CGDG) wedi'i breinio mewn a'i gweinyddu gan gorff corfforedig sydd wedi'i adwaen fel Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cadeirydd ac uchafswm o 14 o aelodau eraill sydd wedi'u penodi gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd CGDG ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) yn olynol i'r Gronfa Tir Cenedlaethol fel coffâd i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (Deddf 1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth.

Mae'n rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad fel dosbarthwyr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannir o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a adwaenir fel Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Telir yr holl symiau a dderbynnir gan drwyddedai'r Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) i Ysgrifennydd Gwladol DCMS a'u rhoi yn CDLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDLG am gyllid i gwrdd â'i rhwymedigaethau o ran taliadau grant a threuliau gweinyddu'r Loteri Genedlaethol.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn dyrannu 20% o'r swm a delir i CDLG ar gyfer gwariant ar, neu'n gysylltiedig â'r dreftadaeth genedlaethol. Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr CGDG fel dosbarthwyr y gyfran honno.

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn unig wedi cael eu paratoi ar ffurf a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chydsyniad Trysorlys EF yn unol ag Adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

1. unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
2. unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
3. unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd wedyn) yn ymestyn pwerau ymddiriedolwyr i wella'r ffordd y caiff eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol eu harddangos. Gwneir hyn drwy ddarparu cymorth ariannol i adeiladu, addasu neu

wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddyluniwyd i hybu mwynhad y cyhoedd, neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i ymddiriedolwyr wneud grantiau refeniw i ehangu mynediad i dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau ar grantiau Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn darparu adnoddau ar gyfer prosiectau treftadaeth ar draws y DU. Rydym wedi adeiladu cofnod cadarn o wneud grantiau dros dreftadaeth, gyda phrofiad sylweddol o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, a thimau arbenigol a leolir ar draws y DU. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn un o ffynonellau ariannu treftadaeth pwysicaf y DU.

### Ein risgiau allweddol

Mae ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi wynebu nifer o risgiau trwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol ac yn effeithiol i isafu'r effaith ar ein hymgeiswyr, grantïon a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag ar y Gronfa Treftadaeth.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r gwaith craffu manwl a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

#### 1. Risgiau allanol

Yn ystod y flwyddyn bu i ni wynebu risgiau allanol yn deillio o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol yn y DU a thu hwnt. Yn benodol, cafodd chwyddiant a chostau byw cynyddol effaith ar ein hymgeiswyr, grantïon, ac ar brosiectau sydd yn y cam cyflwyno.

Yn hyn o beth, un o'r prif risgiau oedd a fyddai arian y Loteri Genedlaethol yn parhau i gynnal ein portffolio buddsoddi ac ariannu ceisiadau newydd. Er mwyn lliniaru'r risg bu i ni weithio gyda'n hadran noddi, DCMS, gweithredwr y Loteri Genedlaethol (Camelot) a holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol ar draws y DU, i hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth y dychweliadau i achosion da. Fel y bu hi, gwnaeth incwm gan y Loteri Genedlaethol ragori ar y rhagamcanion unwaith eto.

Risg allanol fawr arall yw ansicrwydd incwm y Loteri Genedlaethol o ganlyniad i newid o weithredwr presennol y Loteri Genedlaethol (Camelot) i'r gweithredwr newydd (Allwyn) ym mis Chwefror 2024. Byddwn yn parhau i weithio gyda DCMS, y Comisiwn Hapchwarae, Allwyn ac eraill i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r drwydded nesaf.

Gwnaethom gydnabod yn llawn y risg a achosir gan ymosodiadau seibr. Mae seiberddiogelwch yn her gynyddol ac fe wnaethom barhau i gryfhau ein mesurau rheoli a'n prosesau i liniaru'r risg. Mae gan y Gronfa Treftadaeth hefyd achrediad Cyber Essentials Plus, yr achrediad uchaf ar gyfer amddiffyniad seiberddiogelwch.

Bu i ni barhau i ymateb i'r risg sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd hefyd Rydym wedi sicrhau bod ein hôl troed carbon, arferion mewnol a'n rheolaeth yn adlewyrchu rheolaeth well ar y risg hon ac erbyn hyn mae gennym gynllun i'r Gronfa Treftadaeth gyrraedd Sero Net Carbon yn ei gweithrediadau erbyn 2030.

#### 2. Risgiau mewnol

Yn 2021–2022, canolbwyntiodd risgiau mewnol ar gynllunio parhad busnes oherwydd y pandemig COVID-19.

Eleni roedd llai o risgiau parhad busnes wrth i'r Gronfa Treftadaeth symud i batrymau gweithio hybrid ôl-bandemig, ac rydym wedi parhau i gefnogi staff gyda'u hiechyd corfforol, iechyd meddwl a lles wrth i ni addasu i'r arfer gwaith newydd hwn.

Parhaodd adnoddau staff, yn enwedig recriwtio staff, i fod yn her yn y farchnad gyflogaeth fyrlymus yn sgil y pandemig a hefyd o ystyried y cyfyngiadau ar dâl yn y dyfarniadau tâl blynyddol o'i gymharu â'r sector preifat. Er mwyn lliniaru'r risg hon, mae'r Gronfa Treftadaeth yn chwilio'n weithredol am ffyrdd o gynyddu ein cynnig gwerth i gyflogeion.

Rydym hefyd yn cydnabod y risg o dwyll mewnol ac allanol mewn perthynas â gwneud grantiau. Er mwyn lliniaru'r risg anogir pob aelod o staff i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant a roddir gan DCMS. Mae ein

timau buddsoddi a'n swyddogion yn effro i dwyll a byddant yn tynnu sylw at unrhyw risgiau o dwyll ar brosiectau wrth iddynt godi, gan helpu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â grantiau a ddyfernir.

Yn olaf, aethom ati i reoli risg wrth ddatblygu ein system rheoli buddsoddiadau newydd a datgomisiynu ein system rheoli grantiau etifeddol trwy brosesau profi helaeth gyda defnyddwyr mewnol ac allanol. Fe wnaethom hefyd gynnal rheolaeth effeithiol ar gyfanrwydd, cadernid a diogelwch data. Roedd y gwaith hwn yn flaenoriaeth allweddol i'r sefydliad yn 2022–2023.

Gwnaethom barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i bob risg drwy gydol y flwyddyn a sicrhau ein bod yn eu rheoli'n effeithiol ar bob lefel ar draws y Gronfa Treftadaeth.

**Ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024**

Wrth i ni weithio ar ddatblygu Treftadaeth 2033, 2022–2023 oedd y bedwaredd flwyddyn o weithredu ein Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer ein holl grantiau Loteri Genedlaethol rhwng 2019 a 2024. Mae'r Fframwaith Ariannu Strategol yn disgrifio'r weledigaeth a'r egwyddorion sy'n arwain ein hariannu dros fywyd y fframwaith, gan gynnwys: Rhaglen Agored sengl symlach gyda thair lefel o gyllid; datganoli'r mwyafrif o benderfyniadau gwneud grantiau i Gymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tair ardal yn Lloegr; a mwy o ffocws ar natur a thirweddau, treftadaeth gymunedol a threftadaeth sydd mewn perygl.

Yn ystod 2022–2023, wrth i sefydliadau treftadaeth fynd i'r afael â hinsawdd economaidd fwy ansicr, fe wnaethom ganolbwyntio ariannu ac arbenigedd ar gefnogi eu haddasiad i amgylchiadau a oedd wedi newid yn sylfaenol. Trwy arian o'n Rhaglen Agored graidd ac ymestyn ein Rhaglenni Busnes, Menter a Chymorth fe wnaethom gefnogi'r gwaith o archwilio modelau busnes fu'n bodoli eisoes a datblygu ffyrdd newydd, creadigol a mwy cydnerth o weithredu. Mae ein Rhaglen Agored wedi dychwelyd i dderbyn 2,055 o geisiadau, ac rydym yn falch o fod wedi gallu cefnogi 1,126 o brosiectau gyda buddsoddiad o £199.2miliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Ochr yn ochr â'n Rhaglen Agored fe wnaethom barhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio ac arloesi i ehangu cyrraedd ac effaith arian treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Fel y nodwyd uchod, bu i ni weithio ar y cyd gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i ddangos effaith y Loteri Genedlaethol ar y cyd, gan ganolbwyntio ar Jiwbilî Blatinwm y Frenhines a Gemau'r Gymanwlad 2022.

Fe wnaethom dreialu menter Cyllid Gwyrdd gan weithio gyda NatureScot a'r Sefydliad Cyllid Gwyrdd yn Yr Alban i helpu i gynyddu graddfa'r buddsoddiad preifat yng nghyfalaf naturiol Yr Alban. Wrth i waith fynd rhagddo ar ddatblygu Treftadaeth 2033, bu i ni ddatblygu cytundebau ariannu newydd gyda phartneriaid treftadaeth megis y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ac, fel y nodwyd, yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, gan fuddsoddi mewn adeiladu gallu sefydliadau treftadaeth a lle y ceir anghenion sylweddol o ran treftadaeth.

**Busnes gweithredol**

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu bod gan lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da'r Loteri Genedlaethol y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) yn ei dderbyn nac i newid dosbarthwyr yr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Mae llywodraeth y DU yn parhau i gymeradwyo ein rôl dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r gwerth y mae hynny'n ei greu ar gyfer ein hagenda polisi mewn meysydd fel Ffyniant Bro, Lle etc.

Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – Y Loteri Genedlaethol – yn parhau i gynhyrchu symiau rhesymol ar gyfer y Gronfa Treftadaeth. Mae rhagamcanion incwm y Loteri yn parhau i fod yn uchel ac yn sefydlog. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd y Gronfa Treftadaeth yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir cyfrifon cyfunol. Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith dosbarthu'r Loteri

Genedlaethol CGDG yn unig. Diben yr adran hon yw trafod perfformiad CGDG wrth ddosbarthu arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol yn 2022–2023. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau ariannol y flwyddyn gan gynnwys symudiad sylweddol ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn ogystal ag ar rai dangosyddion perfformiad allweddol.

Roedd 2022–2023 yn flwyddyn lwyddiannus o ran enillion ar gyfer achosion da a chyrhaeddodd ein hincwm £353.6miliwn. Roedd hyn £17.6miliwn yn fwy na'r rhagamcanion ar gyfer y flwyddyn. Bu i ni barhau i ddefnyddio rhagamcaniadau Loteri Genedlaethol a ddarperir gan y Comisiwn Hapchwarae ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol ac Allwyn wrth i ni bontio i weithredwr newydd y Loteri Genedlaethol o fis Chwefror 2024.

Yn 2022–2023, ni fu ein taliadau grant a'n taliadau gweinyddol yn fwy na swm ein hincwm gan y Loteri. Y canlyniad terfynol yw bod ein balansau arian parod cyffredinol (arian parod yn y banc ac arian parod yng CDLG) wedi codi o £437.1miliwn i £531.8miliwn. Bydd ein balansau arian parod ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol yn dychwelyd i'r lefelau arferol am fod ceisiadau grant i'r Rhaglen Agored yn cynyddu eto ar ôl COVID-19.

Rydym yn parhau i fonitro patrymau incwm a thaliadau grant i sicrhau y gallwn gefnogi ein rhwymedigaethau yn y tymor canolig i'r tymor hir gan mai'r nod yw lleihau'r balans CDLG i sicrhau ein bod yn dosbarthu taliadau arian parod i achosion da'n amserol ar yr un pryd â sicrhau balansau CDLG digonol i gefnogi rhwymedigaethau presennol. Mae ein rhwymedigaethau grant yn cynnwys prosiectau refeniw â therfyn amser a phrosiectau cyfalaf. Mae'r rhwymedigaethau grant yn cael eu cydnabod yn llawn ar adeg ymrwymo iddynt, ond bydd taliadau grant ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn cael eu cyflwyno fesul cam dros nifer o flynyddoedd wrth i'r prosiectau gael eu cyflwyno. O ganlyniad, mae'n angenrheidiol i'r Gronfa Treftadaeth gadw balansau arian parod sylweddol.

Cododd yr incwm buddsoddi a enillwyd gan y Gronfa Treftadaeth £0.5miliwn i £7.1miliwn. Yr adenillion ar fuddsoddiadau yn y Gronfa Treftadaeth oedd 2.32%.

Cododd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd ychydig o £163.1miliwn i £199.2miliwn.

Fe wnaethom drosi llawer o'n rhwymedigaethau amodol (a elwir yn basys rownd un) a grëwyd mewn blynyddoedd blaenorol i ddyfarniadau llawn. Roedd hyn oddeutu £68.1miliwn.

Cododd lefel y dad-ymrwymiadau a wnaed yn y flwyddyn ychydig o £9.1miliwn i £11.0miliwn.

Gostyngodd y balans rhwymedigaethau grant yn sylweddol o £616.3miliwn i £551.8miliwn. Yn syml, roedd hyn oherwydd bod gwerth y dyfarniadau net newydd yn is o lawer na gwerth y taliadau grant. Rydym yn rhagweld y bydd lefel y dyfarniadau'n codi yn y blynyddoedd ariannol i ddod wrth i'r Rhaglenni Agored fagu momentwm ar ôl COVID-19.

Gostyngodd lefel y taliadau grant tuag 8%, o £234.3miliwn i £252.7miliwn.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gennym £882.1miliwn (2021–22: £817.3miliwn) o ymrwymiadau sy'n weddill mewn perthynas â rhwymedigaethau grant (gan gynnwys rhwymedigaethau amodol) ac roedd gennym £526.8miliwn (2021–2022: £427.1miliwn) yn CDLG i dalu nhw. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud ymrwymiadau net o £355.3miliwn (2021–2022: £390.2miliwn) yn uwch na'r adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Mae hyn gyfwerth ag oddeutu blwyddyn o incwm y Loteri Genedlaethol

| Cymhareb | Amrediad targed | **Ar 31 Mawrth 2023** | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm ymrwymiadau i incwm | Uchafswm yn yr amrediad 4.4:1 i 4.6:1 | **2.5:1** | 2.3:1 |
| Ymrwymiadau net i incwm (hy: cyfanswm ymrwymiadau llai arian parod) | Uchafswm yn yr amrediad 3.0:1 i 3.2:1 | **1.0:1** | 1.1:1 |
| Ymrwymiadau caled i arian parod | Uchafswm yn yr amrediad 2.3:1 i 2.5:1 | **1.0:1** | 1.4:1 |
| Arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Yn yr amrediad £400 –£500miliwn | **£526.8miliwn** | £427.1miliwn |

yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcanion presennol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian parod tymor hir yn bwysig iawn gan fod y prosiectau rydym yn rhoi grantiau iddynt fel arfer yn cymryd blynyddoedd lawer i'w cwblhau. Nid oes unrhyw warant ynglŷn â maint y cyllid y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu ar ein cyfer. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi dyfeisio cymarebau canllaw ynglŷn â lefelau'r ymrwymiadau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwyliedig.

Mae'r cymarebau'n parhau'n destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'n ffordd o weithio a'r hinsawdd allanol (gweler y tabl cymarebau isod). Mae'r rhan fwyaf o gymarebau yn nodi sefyllfa y teimlwn yn gyfforddus â hi. Cododd ein costau gweithredu o £21.5miliwn i £26.3miliwn – cynnydd o 22.3% – yn ystod y flwyddyn wrth i ni newid ein hymdrechion yn ôl yn gyfan gwbl i weithgarwch dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Yn y ddwy flynedd flaenorol, roeddem wedi canolbwyntio ar raglenni ariannu brys. Hefyd, bu i ni fynd i gostau untro ychwanegol mewn perthynas ag adnewyddu ein strategaeth sefydliadol a chostau digidol o ran y system rheoli buddsoddiadau wedi'i huwchraddio.

Roedd ein henw da o fod yn rhoddwr grantiau effeithiol ac effeithlon yn golygu i ni sicrhau'r gwaith o gyflwyno cyllid gan lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon.

O ran y gymhareb arian parod isod, mae'r gyllideb fuddsoddi a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer 2023–2024 yn cynnwys cynnydd o £16.0miliwn i'r cyllidebau ar lefel swyddogion dirprwyedig i hwyluso unrhyw gynnydd yn y galw am grantiau wrth i geisiadau grant i'r Rhaglen Agored fagu momentwm.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Yn 2022–2023 ein costau gweithredu ar gyfer gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol oedd 6.8% o incwm y Loteri Genedlaethol a 5.9% dros gyfartaledd treigl tair blynedd. Mae hyn o fewn targed trothwy DCMS o 7.75%. Mae manylion pellach yn Nodyn 10 yr adran cyfrifon.

Disgwyliwn i'n costau gweithredu godi'n agosach at ein targed trothwy yn 2023–2024 wrth i ni ddychwelyd i'r busnes craidd yn sgil y pandemig COVID-19.

### Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob bil dilys o fewn 30 niwrnod. Talwyd dros 91% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr yn 2022–2023 (2021–2022: 93%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i gyflenwyr sy'n talu yw'r gymhareb dyddiau credydwr. Dyma gymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2023, y ffigur oedd 38 diwrnod (2021–2022: 35 diwrnod).

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd am gynaladwyedd

Eleni fe wnaethom gyhoeddi cynllun datgarboneiddio hyd at 2030 a thargedau cysylltiedig ar gyfer gostyngiadau. Bu i ni gyflawni'n dda yn erbyn ein targedau. Fe wnaethom barhau i addasu ein gofod swyddfa i ofynion gofod y sefydliad, gan leihau arwynebedd ein gweithle o 1550m$^2$ i 843m$^2$ yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â'n hymrwymiad sero net erbyn 2030 i'n gweithrediadau, bu i ni ymrwymo i leihau effaith carbon ein buddsoddiadau erbyn 2050.

#### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Eleni cwblhawyd y gwaith o symud o ofodau swyddfa seiliedig ar lesau a gweithredu traddodiadol i swyddfeydd o fewn gofodau a reolir. Mae mwyafrif y swyddfeydd hyn o dan gytundebau swyddfa â gwasanaeth. Mae'r newid hwn yn ein galluogi i addasu ein hystâd swyddfeydd i faint ein sefydliad. Yn fwyaf arwyddocaol, rydym wedi symud o'n prif swyddfa 721m2 yn Llundain i swyddfa a rennir â chyfanswm o 91m2. Mae'n ein galluogi hefyd i ddefnyddio'r adeilad yn fwy effeithlon gyda chyfleusterau a rennir fel ceginau ac ystafelloedd cyfarfod. Fodd bynnag, mae'n gosod her o ran adrodd am gyfleustodau a'u costau cysylltiedig. Gan mwyaf, bu'n bosib i landlordiaid ddarparu defnydd nwy a thrydan dosranedig. Pan nad yw'r data ar gael yn Nottingham, Manceinion, Newcastle a Chaeredin, rydym wedi defnyddio data EPC fel dirprwyon, yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Mae symud o'r swyddfeydd hŷn yn Nottingham a Llundain wedi cael effaith gadarnhaol ar ein defnydd o nwy. Yn 2021–2022, roedd y ddwy swyddfa hyn

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | **2022–23** | 2021–22 | 2020–21 |
|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Allyriadau Cwmpas ($tCO_2e$) | **2** | 26 | 14 |
| | Allyriadau Cwmpas ($tCO_2e$) | **33** | 44 | 36 |
| | Allyriadau Cwmpas ($tCO_2e$) | **94** | 70 | 9 |
| | Cyfanswm allyriadau gros ($tCO_2e$) | **130** | 140 | 42 |
| Defnydd o ynni a dŵr | Trydan (kWh) | **169,109** | 207,051 | 58,301 |
| | – o ffynonellau adnewyddadwy (kWh) | **19,211** | 27,777 | |
| | – o ffynonellau anadnewyddadwy (kWh) | **149,898** | 179,274 | |
| | Nwy (kWh) | **13,588** | 140,457 | 76,429 |
| | Dŵr ($m^3$) | **436** | 1,530 | 2,434 |
| Gwariant (£'000) | Cyfleustodau (gan gynnwys taliadau gwasanaeth) | **624** | 329 | 279 |
| | Teithio busnes (gan gynnwys llety) | **422** | 172 | 2 |

## Isafu a rheoli gwastraff

| | | **2022–23** | 2021–22 | 2020–21 |
|---|---|---|---|---|
| Gwastraff (tunelli) | Peryglus – gan gynnwys WEEE* | **0.001** | 0 | 0.3 |
| | Tirlenwi | **0** | 0 | 0 |
| | Ynni o wastraff | **1.92** | 0.77 | 1.4 |
| | Ailgylchu cymysg | **1.15** | 0.43 | 0.3 |
| | Cyfanswm gwastraff | **3.25** | 1.20 | 2 |
| Gwariant ar wastraff (£'000) | Cyfanswm gwastraff (gan gynnwys glanhau yn 2020–21) | **wedi'i gynnwys mewn Cyfleustodau** | 26 | 19 |

* WEEE = cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

## Defnydd meidraidd o adnoddau

| | | **2022–23** | 2021–22 | 2020–21 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau meidraidd | Adnoddau meidraidd Dŵr ($m^3$) | **436** | 1,530 | 2,434 |
| | Defnydd o bapur (taflenni) | **33,340** | 6,903 | 0 |
| | Defnydd o bapur ($tCO_2e$) | **3.5** | 0.73 | 0 |

yn cyfrif am 91% o'n defnydd o nwy, sydd wedi'i adlewyrchu yn y gostyngiad a ddangosir. Bellach dim ond dau ofod swyddfa sydd gennym yn defnyddio nwy ar gyfer gwresogi, a bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd amser i'r trwyddedau gael eu hadnewyddu.

Bu i gostau swyddfeydd Llundain a Nottingham orgyffwrdd yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm y costau. Mae'r gwariant a ddarperir yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg a rheoli'r gofod swyddfa gan nad yw'n bosib gwahanu'r rhain.

Ni wnaethom gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithio gartref yn ein hadroddiad am fod y rhain y tu hwnt i gwmpas y canllawiau adrodd ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd trydan amcangyfrifedig dyfeisiau gan mai hyn sydd fwyaf tebygol o gyfrannu'n ychwanegol at effaith amgylcheddol gweithio gartref, a byddwn yn defnyddio'r data hwnnw i gyfeirio caffael yn y dyfodol.

### Isafu a rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau meidraidd

Cynyddodd ein gwastraff eleni wrth i staff ddychwelyd i swyddfeydd, fodd bynnag, mae hyn yn dal yn isel iawn o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Yn yr un modd, er bod y defnydd o bapur wedi codi, mae'n chwarter y gyfradd ddefnyddio a gofnodwyd yn 2019–2020.

Bu i ni barhau i redeg Cynllun Effaith Werdd ar draws y sefydliad sydd, ymhlith meysydd eraill, yn canolbwyntio'n allweddol ar isafu a gostwng gwastraff plastigau untro, gan gydnabod bod lleihau gwastraff yn ddibynnol ar newid diwylliant ac ymddygiad ein staff.

Fe wnaethom ddargyfeirio tua 255kg o nwyddau trydan gwastraff o safleoedd tirlenwi a chynhyrchu £24,000 mewn refeniw trwy werthu ein hen ddyfeisiau i drydydd parti a wnaeth dynnu'r data ohonynt yn ddiogel a'u hailwampio i'w hailwerthu fel y gellir parhau i'w defnyddio.

Mae symud o'n swyddfa yn Llundain wedi lleihau ein defnydd o ddŵr yn sylweddol. Yn 2021–2022 roedd ein swyddfa yn Llundain yn cyfrif am 71% o gyfanswm ein defnydd o ddŵr. Lle mae darlleniadau dŵr wedi'u dosrannu ar gael rydym wedi'u cynnwys. Ar gyfer pob swyddfa arall rydym wedi rhagdybio cyfradd defnyddio o 0.5$m^3$ fesul $m^2$ o ofod swyddfa a rentir. Mae costau dŵr wedi'u hymgorffori yng nghyfanswm y taliadau cyfleustodau a ddarperir uchod.

### Cynllunio gweithredu adferiad natur a bioamrywiaeth

Ein heffaith fwyaf ar fyd natur yw trwy roi grantiau. Yn 2022–2023 bu i ni ddosbarthu £32.5miliwn i dir a byd natur drwy ein cymorth grant a'n Rhaglenni Agored, a dyfarnwyd cyfanswm o £3miliwn drwy ein Rhaglen Newydd i Natur, a lansiwyd i nodi Jiwbilî Blatinwm y Frenhines, y cafodd ei hymestyn wedyn i ddathlu Coroni'r Brenin gyda buddsoddiad ychwanegol o £1miliwn.

O dan ein fframwaith ariannu 2019–2024, gwnaethom ofyn i bob prosiect adrodd ar eu perfformiad amgylcheddol. Mae ein strategaeth newydd yn cynnal ac yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynaladwyedd a'r amgylchedd. Nid ydym yn berchen ar unrhyw dir nac amgylcheddau naturiol ond rydym yn annog staff i wneud lle ar gyfer planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus trwy ddefnyddio eu diwrnodau gwirfoddoli. Ym mis Mai 2022, gwirfoddolodd 15 aelod o staff i lanhau gerddi cymunedol ac fe wnaethom hefyd ddosbarthu codwyr sbwriel i bob swyddfa i annog cydweithwyr i roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau lleol yn ystod eu hamser cinio.

### Caffael cynaliadwy

Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd â safonau llywodraeth. Rydym yn bwriadu gwella ein polisïau caffael cynaliadwy ac yn cydnabod yr angen am ddarparu mwy o ganllawiau. Y llynedd fe ddechreuom ymgysylltu â'n cyflenwyr mwyaf i ddeall eu gallu i adrodd a lleihau eu heffaith amgylcheddol. Gwnaethom hefyd ymgorffori gofynion cynaladwyedd wrth wneud penderfyniadau ar gyfer pob cytundeb swyddfa newydd.

### Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Mae ein hystâd ffisegol yn fach ac yn ystwyth. Gan nad ydym yn berchen ar seilwaith nac yn ei weithredu, mae'r risg i'n sefydliad o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddiogelwch a lles staff a'r risg bosib i barhad busnes os bydd cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol. Ymdrinnir â'r risgiau cysylltiedig yn y cofrestrau risg priodol ac nid ydym yn ystyried addasu i newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn parhau i adolygu hyn.

### Lleihau effeithiau amgylcheddol o TG a defnyddiau digidol

Nod ein strategaeth TG yw lleihau effaith amgylcheddol y dechnoleg a ddefnyddiwn. Eleni fe wnaethom sefydlu gwaelodlin ar gyfer allyriadau sy'n gysylltiedig â TGCh a digidol. Defnyddiwyd Llawlyfr TGCh y Llywodraeth Werdd i nodi meysydd i'w gwella a byddwn yn cyflwyno polisïau cadw a dulliau storio data newydd yn ogystal â darparu gwybodaeth a chymorth i staff o 2023–2024 ymlaen.

### Amcanion polisi a thargedau

Mae ein cynllun blaenorol i gyflwyno strategaeth gynaladwyedd wedi'i ddisodli gan y cynllun datgarboneiddio ar gyfer ein sefydliad ac integreiddio cynaladwyedd amgylcheddol i Treftadaeth 2033.

Er mwyn cyrraedd allyriadau gweithredol sero net, bydd y ffocws ar ein swyddfeydd, seilwaith TG, teithio a'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi gosod targedau effeithlonrwydd ynni i'r gofod swyddfa ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Bu i ni gyflawni'r

targed eleni drwy ddewis adeilad ynni-effeithlon ar gyfer ein swyddfa newydd yng Nghaerdydd a symud allan o swyddfeydd lesddaliadol yn Llundain a Nottingham.

Ein nod oedd lleihau'r pellter a deithiwyd i 1,100,000 cilomedr ond fe wnaethom deithio 1,226,804 km. Fodd bynnag, bu i ni ragori ar ein targed o newid modd i gludiant cyhoeddus drwy symud o'r ffordd i'r rheilffordd, gan deithio 83% o gyfanswm y pellter ar reilffyrdd (targed 65%). Roedd hedfan yn cyfrif am 5% o'r pellter a deithiwyd, gan fethu â chyrraedd ein targed o 3% ar gyfer 2022–2023. Mae hon yn her i'w lleihau o ystyried ein hôl troed yn y DU, gydag 84% o deithiau hedfan yn ymwneud â theithio rhwng Belfast a gweddill y DU.

Bu i ni weithio i ddeall ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn ac i bennu targed gostwng ar sail gwyddoniaeth, sy'n cynnwys yr allyriadau hyn. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol y prosiectau rydym yn eu hariannu, byddwn yn gallu darparu arweinyddiaeth a chymorth ymarferol i'r sector treftadaeth wrth bontio i ddyfodol cynaliadwy.

#### Paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol

Mae llawer o'n prosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiad yn helpu i greu swyddi a chefnogi cymunedau. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gan gynnwys cynrychiolaeth, mynediad at gludiant cyhoeddus, ac argaeledd a chydraddoldeb gwaith cyflogedig.

Fel sefydliad rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i weithio ledled y wlad ac mae ein polisi gweithio hybrid newydd yn disgrifio sut y gall staff weithio'n hyblyg ar draws y DU.

#### Adeiladu cynaliadwy

Heblaw ariannu prosiectau cyfalaf, nid oes gan y sefydliad unrhyw waith adeiladu newydd o ran asedau cyfalaf.

**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

## Adroddiad atebolrwydd

### Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth o'n strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn i staff. At hynny, rydym yn trafod ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb yn y gweithle ac amrywiaeth staff
- adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2022–2023 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r Gronfa Treftadaeth a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG


Cadeirydd

Dr Simon Thurley CBE

Ymddiriedolwyr

Maria Adebowale-Schwarte

Y Farwnes Kay Andrews OBE
tan 31 Rhagfyr 2022

Dr Claire Feehily

Julian Glover
o 1 Mai 2022

Denise Lewis-Poulton
o 6 Chwefror 2023

Ray Macfarlane

Taryn Nixon
o 1 Mai 2022

Carol Pyrah
o 9 Mai 2022

Mukesh Sharma MBE DL

Dr David Stocker

Prif Weithredwr

Eilish McGuinness


Gellir dod o hyd i fanylion aelodau staff uwch eraill yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff ar dudalen 25.

Roedd y rhaniad o'n staff o ran rhywedd (gan gynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar weithgareddau'n ymwneud â'r Loteri Genedlaethol, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2023, fe a ganlyn. Bu i lawer o'n staff yn 2022–2023 weithio ar weithgareddau'r Loteri Genedlaethol a gweithgareddau cymorth grant.

| | Dynion | Menywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr gweithredol | 1 | 3 | **4** |
| Staff | 87 | 239 | **326** |
| Ymddiriedolwyr | 4 | 6 | **10** |

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr ac aelodau Pwyllgorau Ardal a Gwlad yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa Treftadaeth ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol gyda'r Gronfa Treftadaeth. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ceir trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – www.heritagefund.org.uk/cy.

### Datblygiadau'r dyfodol

Bydd y flwyddyn i ddod yn gweld y Grantiau Treftadaeth yn canolbwyntio ar bontio i Treftadaeth 2033, a thrwy hynny byddwn ni'n parhau â'n hymagwedd bresennol o gynnig rhaglenni ariannu agored – o grantiau bach hyd at brosiectau gwerth miliynau o bunnoedd – ar gyfer pob math o dreftadaeth.

O 2023, byddwn yn cyflwyno trothwy buddsoddi uwch o £10miliwn i ddarparu ar gyfer buddsoddi ar raddfa fwy a byddwn yn ystyried buddsoddi mewn prosiectau uwchben y trothwy hwn er mwyn cefnogi prosiectau treftadaeth gwirioneddol eithriadol ar draws y DU.

Byddwn ni'n cryfhau partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol ac yn creu partneriaethau newydd gyda'r rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiant wrth ddarparu arian cymorth grant drwy'r pandemig, gan ddarparu ariannu ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau a chyrff eraill i gyflawni ein nodau a rennir.

### Mentrau strategol

Yn y dyfodol, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol at gryfhau buddsoddiad strategol, gan dargedu ein hadnoddau tuag at yr anghenion mwyaf brys. Byddwn yn targedu buddsoddi seiliedig ar le sy'n rhoi hwb i falchder mewn lle ac yn cysylltu cymunedau ac ymwelwyr â threftadaeth, gydag ymrwymiad i fuddsoddi o leiaf £200miliwn yn ei le dros oes y strategaeth.

Byddwn hefyd yn cefnogi prosiectau ar raddfa fawr sy'n adfywio tirweddau, yn cefnogi adferiad natur ac yn gwella cysylltedd pobl a bywyd gwyllt. Byddwn ni'n mynd ati i lunio ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth at nodi bylchau yn y cymorth i'r sector treftadaeth, yn enwedig lle mae treftadaeth yn y fantol ac mae angen cadwraeth arni, a byddwn yn sicrhau y gallwn ymateb yn gyflym a gweithredu pan fydd angen er mwyn ymateb i sefyllfaoedd a

chyfleoedd unigryw. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar yr ymyriadau strategol hyn a bydd yn cynyddu dros y flwyddyn i ddod wrth i ni symud ymlaen â chyflwyno Treftadaeth 2033.

Bydd ein cynllun cyflwyno tair blynedd cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn haf 2023 a bydd yn nodi rhagor o fanylion am sut y caiff y strategaeth ei rhoi ar waith fesul cam.

**Data ac ymchwil**
Y flwyddyn yma gwnaethom gynyddu ein galluoedd dadansoddi data a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill ar brosiectau ymchwil fel Pwls Treftadaeth a thrwy ein defnydd a rennir o ddata ymgysylltu drwy'r Arolwg Cymryd Rhan dan arweiniad DCMS. Gwnaethom hefyd wella ein harlwy data agored er mwyn cyhoeddi data yn ehangach ac yn amlach. Trwy ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf Diwylliant a Threftadaeth a arweiniwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), rydym yn parhau i gynnig arbenigedd a chymorth i helpu i wella'r ffordd y caiff gwerth y sectorau diwylliant a threftadaeth eu mesur yn yr hirdymor. Mae ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys treialu Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) newydd a galluoedd mapio a fydd yn ein helpu i ddarparu mewnwelediadau cryfach a chefnogi'r gwaith buddsoddi seiliedig ar le ac ar raddfa tirweddau sydd wedi'i nodi yn Treftadaeth 2033.

**Penodi archwilwyr**
Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol CGDG gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

**Rhanddeiliaid allweddol**
Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a pholisïau ac arfer gwneud grantiau. Yn eu plith mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff treftadaeth arweiniol ynghyd â meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n hariannu ar draws y DU, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi DU gyfan (gweler yr adran Cyfarwyddiadau polisi tua diwedd yr adroddiad hwn) ac yn rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Yr Alban a Senedd Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

**Ychwanegedd**
Yn unol â chyfarwyddiadau ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol roi ystyriaeth i egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol yw y dylai ein hariannu fod yn ychwanegol at yr ariannu sydd ar gael gan lywodraeth yn hytrach na'i ddisodli. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau y tybiwn yr oedd ariannu gan lywodraeth ar gael iddynt ar adeg y penderfyniad. Fel rhan o'n hasesiad grant rydym yn gofyn i ymgeiswyr wneud achos clir dros fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol gan gynnwys dweud wrthym ba ffynonellau ariannu eraill sydd wedi cael eu hystyried.

**Data personol**
Cafodd CGDG bedwar achos lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), nid oedd angen adrodd ar unrhyw un o'r digwyddiadau hyn i'r ICO. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau adferol i leihau'r posibilrwydd y byddai'n digwydd eto. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chydsyniad Trysorlys EF. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Treftadaeth ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Trysorlys EF ac yn benodol:

1. glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
2. ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
3. datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn y LlAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
4. paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu

Penododd prif Swyddog Cyfrifyddu DCMS yr uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa Treftadaeth.

Mae eu cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros ddiogelu asedau'r Gronfa Treftadaeth a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u disgrifio yn yr adran sydd â'r teitl 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod yr adroddiad a chyfrifon blynyddol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mai hwy sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu ei fod yn deg, cytbwys a rhesymol.

## Datganiad Llywodraethu

### Rhagair

Fe'm penodwyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar 1 Ionawr 2022.

Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn ar draws y sefydliad cyfan sy'n cefnogi cyflawni diben y Gronfa Treftadaeth ac yn diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

### Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg a sut rydym yn cydymffurfio â 'Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EF mewn adrannau llywodraeth ganolog: côd arfer da'.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'n ofynnol i mi, yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn cydweddu â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthiad dyfarniadau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol. Er i ni weithredu un strwythur llywodraethu cyffredinol, rydym wedi addasu ac ystwytho ein llywodraethu i fodloni gofynion ein rhaglenni cymorth grant drwy ddefnyddio paneli bach o ymddiriedolwyr a darparu hyblygrwydd wrth ddirprwyo rhai o'n penderfyniadau.

### Amgylchedd gweithredu

Er gwaethaf ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd, a greodd amgylchedd gweithredu heriol, fe wnaethom barhau i ymateb i'r sector a chefnogi treftadaeth ar draws y DU. Bu i ni ddatblygu partneriaethau newydd a gweithio gyda gwahanol adrannau llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Bu i ni barhau i ddarparu ein rhaglenni cymorth grant cyffredinol a rhai penodol i COVID-19. Cododd momentwm ein Rhaglenni Agored y Loteri Genedlaethol eto yn sgil y pandemig gyda ffocws cryfach ar adferiad a chydnerthedd.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Parhaodd llif arian a hylifedd i fod yn allweddol i iechyd a goroesiad y sector treftadaeth. Bu modd i ni gyfrannu buddsoddiad er mwyn cynnal cefnogaeth i brosiectau, helpu cymunedau, diogelu swyddi a sicrhau goroesiad rhannau helaeth o'r sector efallai na fyddent wedi llwyddo i ymdopi â'r hinsawdd economaidd ansicr fel arall.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod ein trefniadau llywodraethu wedi caniatáu i ni weithredu drwy'r amgylchedd gweithredu ansicr ac i gyflwyno ystod o ymatebion ar draws y DU a oedd yn hollbwysig wrth ddiogelu'r sector treftadaeth.


Mae llywodraethu'r Gronfa Treftadaeth wedi parhau i fod yn gydnerth ac yn hyblyg drwy gydol y flwyddyn gyfan.

### Dogfen Fframwaith CGDG gyda DCMS

Yn ystod y flwyddyn cytunodd CGDG ar Ddogfen Fframwaith drafft gyda DCMS yn nodi ein trefniadau llywodraethu fel corff cyhoeddus anadrannol o'r adran, ein dirprwyaethau, mesurau rheoli gwariant a threfniadau gweithredu ehangach. Disgwyliwn i hwn gael ei gwblhau yn 2023–2024.

### Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2022–2023 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y'u disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.




### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwylio rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, saith cyfarfod yn ystod y flwyddyn i gytuno ar strategaeth a chynlluniau busnes CGDG a gwneud penderfyniadau'n unol â'r strategaethau a chynlluniau hynny. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr gweithredol.

Dr Simon Thurley CBE yw Cadeirydd y Gronfa Treftadaeth a thrwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhyngddo ef, y Prif Weithredwr a staff uwch. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd. Ailbenodwyd un ymddiriedolwr newydd ac ymddeolodd un ymddiriedolwr yn 2022–2023.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 93%. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r pwyllgorau a ddangosir ar y dudalen hon – mae'r Pwyllgorau Ardal a Gwlad yn goruchwylio'r penderfyniadau dyfarnu grant a gyflwynir ger eu bron. Mae cadeiryddion y Pwyllgorau Ardal a Gwlad yn rhan o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a pherfformiad cyffredinol y Gronfa Treftadaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2022–2023 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfod(ydd) a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Simon Thurley CBE<br>Cadeirydd | 7 | 7 |
| Maria Adebowale-Schwarte | 7 | 5 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE<br>tan 31 Rhagfyr 2022 | 7 | 6 |
| Dr Claire Feehily | 7 | 6 |
| Julian Glover<br>o 1 Mai 2022 | 7 | 7 |
| Denise Lewis-Poulton<br>o 6 Chwefror 2023 | 1 | 1 |
| Ray Macfarlane | 7 | 6 |
| Taryn Nixon<br>o 1 Mai 2022 | 7 | 7 |
| Carol Pyrah<br>o 9 Mai 2022 | 7 | 7 |
| Mukesh Sharma MBE DL | 7 | 7 |
| Dr David Stocker | 7 | 7 |

## Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 11 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 60% yn fenywod a 40% yn ddynion. Daeth dau (20%) o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang.

## Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ac y diwedderir eu cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau fel y bo angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu yn goruchwylio proses i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod pwyllgor gyda'r cyfarwyddwyr gweithredol ac mae staff uwch eraill yn bresennol fel y bo angen. Cefnogir a gwasanaethir y Pwyllgor gan dîm Cyfreithiol a Llywodraethu'r Gronfa Treftadaeth. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa Treftadaeth, a DCMS, yn arsylwi'r cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel eu hunain cyn cyfarfodydd a hefyd trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ychwanegol at ymddiriedolwyr, mae dau aelod annibynnol anweithredol yn aelodau o'r pwyllgor hefyd – sef Warren Mead a Robert Milburn. Ymunodd y ddau yn effeithiol o 1 Mehefin 2022. Disodlodd yr aelodau newydd hyn David Michael a Carole Murray a ymddeolodd o'u rolau ar 30 Mehefin 2022.

Bu i'r Pwyllgor ailbenodi BDO fel archwilwyr mewnol yn 2021–2022. Cytunwyd ar gynllun strategol ar ei newydd wedd ar gyfer archwilio mewnol ac ar y rhaglen waith un flwyddyn ar gyfer 2022–2023. Roedd yr holl adolygiadau a gyflawnwyd yn 2022–2023 ac a adroddwyd i'r Pwyllgor yn cyfateb i'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar:

- fudo data gwasanaeth rheoli buddsoddiadau
- strategaeth llywodraethu gwybodaeth a TG
- strategaeth pobl
- mesurau rheoli ariannol craidd

Mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor, ac adroddiadau cryno yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ac mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2022–2023, yn ychwanegol at yr adroddiadau a chyfrifon uchod, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- adroddiadau pellach ar y gwasanaeth rheoli buddsoddiadau
- achosion o dwyll a thwyll honedig gan gynnwys asesiad risg twyll manwl ac asesiad ôl-werthuso ar gyfer ein rhaglenni cymorth grant yn y pandemig
- trefniadau caffael gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor trwy gydol 2022–2023 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfod(ydd) a fynychwyd |
|---|---|---|
| Claire Feehily<br>Cadeirydd | 4 | 4 |
| Maria Adebowale-Schwarte | 4 | 3 |
| Warren Mead<br>o 1 Mehefin 2022 | 4 | 4 |
| David Michael<br>tan 30 Mehefin 2022 | 1 | 1 |
| Robert Milburn<br>o 1 Mehefin 2022 | 4 | 4 |
| Carole Murray<br>tan 30 Mehefin 2022 | 1 | 1 |

Mae cadeirydd y pwyllgor hefyd yn mynychu Fforwm Cadeiryddion Archwilio DCMS gan roi adborth a sicrwydd pellach i'r Swyddog Cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn.

## Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth

Ni chyfarfu'r Pwyllgor yn 2022–2023.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

**Dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau**
Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o grantiau'r Loteri Genedlaethol i'r gwledydd ac i ardaloedd o Loegr (fel y dangosir yn y strwythur llywodraethu ar dudalen 18). Mae chwech o'r pwyllgorau hyn (tair gwlad a thair ardal yn Lloegr), pob un wedi'i gadeirio gan ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau grant, mae'r pwyllgorau hyn yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cyfarfu cadeiryddion y Pwyllgorau Gwlad ac Ardal â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd â staff uwch yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyflwyno Busnes) yn mynychu pwyllgorau ar gyfer pob gwlad ac ardal o Loegr trwy gydol y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn mynychu nifer o bwyllgorau drwy gydol y flwyddyn.

Mae ymddiriedolwyr hefyd yn dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau o dan £250,000 i staff uwch mewn timau ardal a gwlad. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd.

**Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)**
Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Daeth Gweithrediaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri chyfarwyddwr gweithredol i rym ar gyfer pob adran yn 2019 ac mae wedi bodoli ers hynny. Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am faterion rheoli strategol ehangach a'r ddarpariaeth fusnes yn y Gronfa. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd yn rheolaidd yn unol ag anghenion busnes.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP) yn cynnwys uwch gyfarwyddwyr a staff ar draws y tair adran ac mae ganddo gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Cyfarfu'r GSP yn rheolaidd ac mewn nifer o'r cyfarfodydd hyn roedd y Weithrediaeth hefyd yn bresennol.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn darparu mewnbwn i adroddiad rheolaidd gan y Prif Weithredwr i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

At hynny, ar ddechrau pob blwyddyn, rwy'n cyhoeddi Llythyr o Gyfrifoldeb i bob cyfarwyddwr gweithredol yn nodi eu cyfrifoldebau a'r angen i weithredu o fewn canllawiau a rheolau'r Gronfa Treftadaeth, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF. Ar ddiwedd pob blwyddyn rwy'n derbyn Memoranda Sicrwydd wedi'u llofnodi gan bob cyfarwyddwr gweithredol yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth neu'n nodi unrhyw dor rheolau. Adroddwyd cydymffurfiaeth lawn ar gyfer 2022–2023.

Rwyf hefyd yn mynychu Fforwm y Loteri – grŵp o holl Brif Weithredwyr Dosbarthwyr y Loteri. Mae hefyd yn cysylltu â DCMS a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau Busnes) hefyd yn mynychu'r fforwm cyfatebol ar gyfer cyfarwyddwyr cyllid yn ogystal â chyfarfodydd cyfarwyddwr cyllid DCMS. Darperir adborth a sicrwydd i mi drwy'r llwybrau hynny. Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda thîm noddi DCMS.

**Dyluniad a strwythur y sefydliad**
Yn ystod y flwyddyn, fel Prif Weithredwr, gweithredais strwythur o dair adran, sef:

- Arloesedd a Mewnwelediad Busnes (strategaeth, polisi, data a mewnwelediad ynghyd â marchnata a chyfathrebu)
- Cyflwyno Busnes (cyflwyniad gweithredol)
- Gwasanaethau Busnes (swyddogaethau cefnogi)

Datblygir y cynllun gweithredu – y Cynllun Busnes – bob blwyddyn ochr yn ochr â chynllunio cyllidebau ariannol a rhaglenni buddsoddi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bu i ni integreiddio rheoli risgiau'n agos i'r broses cynllunio busnes. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, DCMS.

Mae DCMS hefyd yn pennu cyfarwyddiadau polisi DU yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny ac rydym hefyd wedi cydymffurfio â nhw. Mae gennym hefyd gyfarwyddiadau polisi gan DCMS dros Loegr. Yn 2022, ymgynghorodd Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon ar Gyfarwyddiadau Polisi Gogledd Iwerddon ar gyfer y Gronfa Treftadaeth. Ers hynny rydym wedi trafod argymhellion yr Adran yn dilyn yr ymgynghoriad wrth

i ni symud tuag at ailsefydlu cyfarwyddiadau polisi ac adrodd i Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon.

Bu i ni weithredu yn unol â'n Cytundeb Fframwaith drafft (fel y cytunwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol) a'r Memorandwm Ariannol rhyngom ni a DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion DCMS a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Saif y blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen fframwaith drafft ochr yn ochr â chyfarwyddiadau polisi'r DU a'r gwledydd.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Dylunnir ein system rheoli risg a rheoli mewnol i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion – gan hynny ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol nid sicrwydd llwyr. Yn benodol, rwy'n glir y dylai rheoli risg gydbwyso arloesedd neu newidiadau i'r busnes pan fydd angen hynny. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mae ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion a gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai'r gwireddiad hynny'n digwydd.

Cyfeirir pennu'r holl bolisïau a gwneud penderfyniadau grant gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl bu i ni ddiwygio ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer sicrwydd ehangach ar draws CGDG. Fe wnaethom barhau i weithredu'r dull hwn yn 2022–2023 ac rydym yn bwriadu adolygu ein dull risg eto yn ystod 2023–2024.

Mae'r cofrestri/asesiadau risg a'r broses sylfaenol yn aseinio perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno yn effeithiol. Mae'r cofrestri hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luosi' yn cael ei hystyried. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel ei fod yn bosib barnu effeithiolrwydd y mesurau rheoli a'r mecanwaith sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn galluogi perchennog y risg i adnabod mesurau pellach y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr awydd a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau hynny.

Adolygodd y Bwrdd hefyd ei awydd am risg yn ystod 2022–2023 ac roedd yn fodlon ar y lefelau risg presennol. Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd a ystyrir yn drylwyr i gyflawni amcanion CGDG. Credaf fod y Gronfa Treftadaeth yn dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n fodloni dim ond ar wneud penderfyniadau sy'n rhydd rhag risg.

I'r perwyl hwn rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn y pen draw yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn rhai amgylchiadau anghyffredin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion pan fyddwn yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu am ymchwiliad pellach. Rwy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy galluogi i'w fonitro bob blwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ar ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir ei weld o nodyn 20 yn adran y cyfrifon, mae lefel y grantiau a ddiddymir yn fach iawn o'i gymharu â lefel y grantiau rydym yn ei ddosbarthu bob blwyddyn. O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw destun pryder ynglŷn â lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

Yn 2022–2023 ystyriodd ymddiriedolwyr CGDG mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- rheoli incwm y Loteri Genedlaethol ochr yn ochr â'n amlygiad hylifedd, rhagamcaniadau cyllid hirdymor a'r gallu i ariannu'r rhain a sicrhau bod ein dangosyddion perfformiad allweddol ariannol yn parhau o fewn ein goddefiant risg o ran y galw am ddyfarniadau, ymrwymiadau (rhwymedigaethau) ac ymrwymiadau posib (rhwymedigaethau amodol) ac arian parod a ddelir, fel y dangosir yn y dadansoddiad o berfformiad ar dudalen 9.
- nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'n gwaith cymorth grant yn mynd yn sefydlog, nac yn cael effaith andwyol ar ein sylfaen costau strategol yn y dyfodol
- lles ac iechyd meddwl ein timau
- yr heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- datblygu'r gwasanaeth rheoli buddsoddiadau newydd
- ymdrin ag ansicrwydd economaidd ar gyfer ein prosiectau o ran costau, chwyddiant, cadwyni cyflenwi, etc

- ymdrin â newid a risg wleidyddol ar draws y DU
- rheoli'r effeithiau ar risgiau economaidd (chwyddiant, sefydlogrwydd cadwyni cyflenwi) etc ar draws derbynyddion ein grantiau
- sicrhau y defnyddir ein data a mewnwelediad er effaith optimaidd
- gan wneud yn siŵr ein bod ni'n cyflawni newidiadau diwylliannol ar draws y Gronfa i gefnogi'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar y lefel weithredol sydd â'r dasg o reoli'r risg a sicrhau yr ymgymerir â chamau lliniaru priodol. Credaf ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol trwy gydol 2022–2023.

**Ymagwedd at risgiau twyll a gwybodaeth**
Mae gan Ymddiriedolwyr CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Anogir holl staff CGDG i ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Twyll.

Mae'r hyfforddiant yn nodi meysydd sydd â risg o dwyll ar gyfer CGDG, a sut y gellir adnabod a lliniaru'r rhain er mwyn gostwng y risg o dwyll. Mae CGDG wedi ymgymryd yn benodol â hyfforddiant twyll pwrpasol a ddarperir gan bartïon allanol i'n timau buddsoddi mewn meysydd megis sut i ddatgelu twyll a sut i roi gwybod am amheuon ynghylch twyll.

Mae'r holl staff rheng flaen gweithredol newydd yn derbyn hyfforddiant ar asesu a monitro ceisiadau grant fel rhan o'u proses gynefino. Twyll yw un o'r pynciau yr ymdrinnir ag ef yn yr hyfforddiant hwnnw. At hynny, mae amrywiaeth o fesurau gwrth-dwyll yn cael eu cyflawni gan staff yn y camau cyn-ymgeisio, ymgeisio, asesu, monitro a chau'r prosiect.

Dros flynyddoedd diweddar rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o risg a threfniadau cywain gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol a pharhaom â hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i adnabod y risg o dwyll.

Bu i ni gydnabod yr awydd risg ehangach am hyn y tu allan i'r Gronfa Treftadaeth, a gweithio ochr yn ochr â DCMS, Defra etc i fodloni eu gofynion yn hyn o beth.

Bu i ni gydnabod hefyd bod mynediad at ariannu a defnyddio grantiau a dalwyd eisoes yn parhau i fod yn feysydd lle mae perygl o dwyll neu gamgymeriad. Bu i ni barhau i ddefnyddio ein trefniadau gwrth-dwyll cadarn presennol ac adeiladu ar y rhain gydag offer a gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeledd gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u cynefino.

**Modelau hollbwysig i fusnes**
Rwy'n ystyried ein bod mewn cydymffurfiad â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson, Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hanfodol i'r busnes – y rhagamcaniad llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posib o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu or-estyn ein hunain. Crëwyd y model tua phymtheg mlynedd yn ôl ac mae'n parhau'n bennaf ar ei ffurf wreiddiol ar wahân i ymestyn ei gylch bywyd. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro i Gemau Olympaidd 2012, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagamcaniad rhesymol o'n cynaladwyedd ariannol.

Yn 2014–2015, ar sail y prif fodel, creodd y Bwrdd fframwaith ariannol a ddisgrifiodd gymarebau grantiau a fu'n gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymiadau, rhwymedigaethau gwirioneddol a gymeradwywyd, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yn CDLG. Gan hynny rydym o'r gred bod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn i ni dros roi grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2022–2023 ac yn wir fe'i defnyddiwyd wrth fodelu ar gyfer ein sefyllfaoedd a thybiaethau cynllunio incwm gan y Loteri Genedlaethol. Fe wnaethom adolygu'r cymarebau allweddol yn 2022–2023 ac addasu'r rhain ar gyfer y tymor hwy.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**
Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu datblygu ein strategaeth newydd, Treftadaeth 2033, a goruchwylio gwaith y Gronfa Treftadaeth o gyflwyno rhaglenni'r Loteri Genedlaethol a gweithgarwch cymorth grant. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariadau manwl a rheolaidd ar yr holl

ymyriadau; ac mae is-setiau o'r ymddiriedolwyr wedi gwneud penderfyniadau ar raglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i gyflawni gofynion côd llywodraethu corfforaethol Trysorlys EF.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn cynefino ar adeg ei benodiad sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau a dyletswyddau fel ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, gan ei helpu i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen cynefino ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd y Bwrdd llawn hunanasesiad o effeithiolrwydd y Bwrdd i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion ei gylch gorchwyl ac yn cyfrannu at arweinyddiaeth y Gronfa Treftadaeth. Bydd y canlyniadau'n gwella arferion a pherfformiad llywodraethu'r Bwrdd gyda rhaglen glir o gamau dilyn i fyny a chynllun gweithredu. Byddai'r gwerthusiad llawn yn sail i'r Adolygiad cadarn o effeithiolrwydd y Bwrdd sydd i'w gynnal yn 2023–2024 a fydd yn edrych ar y strwythur, y bobl a'r perfformiad i gyflwyno.

Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwylio ar hyn o bryd gan yr uwch ymddiriedolwr annibynnol.

### Y flwyddyn lywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Cyfeirir fy adolygiad gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) ac uwch reolwyr o fewn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau cynnal a chadw a gweithredu'r fframwaith rheoli mewnol yn effeithiol ochr yn ochr â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Pennir cytundebau perfformiad i'r holl staff ar ddechrau'r flwyddyn sy'n disgrifio eu hamcanion personol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Adolygir y rhain yn ffurfiol mewn adolygiadau hanner ffordd trwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda chyfarwyddwyr gweithredol ar sail un i un trwy gydol y flwyddyn hefyd. Fel y nodwyd, mae timau'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cwrdd yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y llythyr rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol gan ddilyn eu hadolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Wrth gael eu hailbenodi, lluniodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. Tynnir y cynllun blynyddol allan o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir i mewn i'r gofrestri risg a'r awydd am risg.

Gyda BDO bu i ni gyflwyno cyfarfodydd cyswllt chwarterol newydd gyda'r archwilwyr mewnol i helpu monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Parhawyd i ddefnyddio'r rhain i fonitro cynnydd a chyflawniadau'r rhaglen. Cyflwynwyd mesurau rheoli newydd rhai blynyddoedd yn ôl hefyd i wella atebolrwydd ar adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Parhawyd â'r rhain yn 2022–2023 a chafodd yr argymhellion a oedd i fod i gael eu gweithredu yn 2022–2023 eu rhoi ar waith yn foddhaol neu mae rheswm dilys dros yr oedi.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau – mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig i reolwyr yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i

wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei dracio a'i fonitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.


Cyflwynwyd ein Cod Ymddygiad newydd i staff a chontractwyr yn 2018, gan gynnwys meysydd fel:

- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- datgelu camarfer

Hysbyswyd yr holl staff am y Côd ac fe'i rhoddwyd ar ein mewnrwyd.

Mae Llythyron Awdurdod/Cyfrifoldebau Dirprwyedig yn bodoli ar gyfer yr holl gyfarwyddwyr gweithredol – sy'n disgrifio eu hawdurdodau dirprwyedig (cyllid, caffael etc.) i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn cydweddu â'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y cylch hwn wedi'i gwblhau yn 2022–2023.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa Treftadaeth yn darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau ar gyfer datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a datgelu twyll ac ar gyfer isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri Genedlaethol yn ddigonol.



**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr

Roedd gan bob ymddiriedolwr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau'r Gronfa Treftadaeth. At hynny, mae'r Gronfa Treftadaeth yn ad-dalu treuliau teithio ymddiriedolwyr wrth iddynt deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Penodir ymddiriedolwyr am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa Treftadaeth unrhyw gyfraniadau at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

## Ffigur cyfanswm sengl y Weithrediaeth ar gyfer tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | Cyflog 2022–23 £'000 | Cyflog 2021–22 £'000 | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2022–23 £'000 | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2021–22 £'000 | Cyfanswm 2022–23 £'000 | Cyfanswm 2021–22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eilish McGuinness<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | **140–145** | 115–120* | **182** | 92 | **320–325** | 205–210 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2022 | **30–35**<br>**(Cyfwerth blwyddyn lawn: 110–115)** | 110–115 | **11** | 41 | **35–40** | 150–155 |
| Harnish Hadani<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 3 Mai 2022 | **100–105**<br>**(Cyfwerth blwyddyn lawn: 110–115)** | – | **39** | – | **135–140** | – |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes | **120–125** | 120–125 | **46** | 47 | **165–170** | 165–170 |
| Anne Jenkins<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | **105–110** | 20–25** | **201** | 61 | **305–310** | 80–85 |

* Prif Weithredwr o 1 Ionawr 2022. Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021.

** Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes o 1 Ionawr 2022. Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Anne Jenkins yn 2021–2022 yn yr amrediad £105,000 i £110,000.

## Tâl cydnabyddiaeth pensiwn y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad £'000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31 Mawrth 2023 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Eilish McGuinness<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 7.5–10 plws cyfandaliad o 15–17.5 | 60–65 plws cyfandaliad o 155–160 | **1,416** | 1,096 | 176 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2022 | 0–2.5 | 15–20 | **313** | 288 | 8 |
| Harnish Hadani<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 3 Mai 2022 | 0–2.5 | 5–10 | **79** | 42 | 27 |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes | 2.5–5 | 5–10 | **136** | 92 | 30 |
| Anne Jenkins<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | 7.5–10 plws cyfandaliad o 20–22.5 | 50–55 plws cyfandaliad o 110–115 | **1,061** | 775 | 189 |

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os yw eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu'r oedran pensiwn gwladol ar gyfer aelodau alpha y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill newydd. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

## Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1%:99%. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2022–2023 oedd £179,088 (2021–2022: £154,418). Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws.

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Dr Simon Thurley | **40–45** | 40–45 |
| Maria Adebowale-Schwarte | **10–15** | 10–15 |
| Baroness Kay Andrews OBE tan 31 Rhagfyr 2022 | **15–20 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 20–25)** | 20–25 |
| Dr Claire Feehily | **10–15** | 15–20 |
| Julian Glover o 1 Mai 2022 | **10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)** | – |
| Denise Lewis-Poulton o 6 Chwefror 2023 | **0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 20–25)** | – |
| Ray Macfarlane | **20–25** | 20–25 |
| Taryn Nixon o 1 Mai 2022 | **10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)** | – |
| Carol Pyrah o 9 Mai 2022 | **10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)** | – |
| Mukesh Sharma MBE DL | **20–25** | 20–25 |
| Dr David Stocker | **10–15** | 10–15 |

Ni thalwyd unrhyw fonysau i uwch reolwyr yn y flwyddyn dan sylw nag yn y flwyddyn gymharol.

### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddiannau a brisir yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob rôl staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol, ac eithrio un aelod o staff a oedd ar gontract cyfnod penodol, ac roeddent i gyd yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99%:1% (2021–2022: 99:1).

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio canllawiau'r cyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023.

Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; caiff y canllawiau hyn eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023–2024.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil: Y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha.

Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran mewn PGPGS, sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015.Gwnaeth y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, mae'n bosib y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler uchod). Bydd buddiannau PGPGS yr holl aelodau a newidiodd i alpha yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun hybrid, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £45,276 (2021–22: £27,779) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae'r Gronfa Treftadaeth yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o'r panel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–2019, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae saith aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae mwy o fanylion am y trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk. Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig. Ar gyfer 2022–2023, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £2,878,911 (2021–2022: £2,665,564 ac eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PGPGS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

| Band cyflog | % |
|---|---|
| £23,000 a llai | **26.6%** |
| £23,001–£45,500 | **27.1%** |
| £45,501–£77,000 | **27.9%** |
| £77,001 a mwy | **30.3%** |

## Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Y cyfarwyddwr gweithredol ar y cyflog uchaf yn 2022–2023 a 2021–2022 oedd y Prif Weithredwr fel y datgelir yn y tabl ar dudalen 25. Tâl bandiau blynyddol y Prif Weithredwr yn 2022–2023 oedd £140,000 i £145,000 ac yn 2021–2022 roedd yn £145,000 i £150,000 (dyma oedd cyflog y Prif Weithredwr blaenorol Ros Kerslake, a adawodd y Gronfa Dreftadaeth ar 31 Rhagfyr 2022. Roedd hyn tua 3.8 gwaith (ailddatganwyd 2021–2022: 3.9 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef £37,546 (ailddatganwyd 2021–2022: £36,883). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £19,800 i amrediad o £140,000 i £145,000 (2021–2022: £18,180 i fand o £145,000 – £150,000).

### Datgeliad cyflog teg

| | **Cyfanswm cyflog a lwfansau 2022–23** | **Taliadau Bonws i staff 2022–23** | Cyfanswm cyflog a lwfansau 2021–22 | Taliadau Bonws i staff 2021–22 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd staff | **2.59%** | **-12.24%** | -1.33% | 11.75% |
| Y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf | **-3.39%** | **–** | 0.00% | – |

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Mae'n ofynnol hefyd i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Datgelir yr wybodaeth hon isod. Nid oes unrhyw fonysau wedi'u talu i weithwyr, felly mae'r holl symiau a chymarebau isod yn ymwneud ag elfennau cyflog.

| | **2022–23 £** | **2022–23 Cymhareb** | Ailddatganwyd 2021–22 £ | Ailddatganwyd 2021–22 Cymhareb |
|---|---|---|---|---|
| 25ain canradd | **43,019** | **3.3** | 42,498 | 3.4 |
| 50ain canradd | **37,546** | **3.8** | 36,883 | 3.9 |
| 75ain canradd | **27,255** | **5.2** | 25,843 | 5.5 |

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'r Gronfa Treftadaeth yn cyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Yr hyn sy'n dod o dan ddiffiniad pecynnau ymadael yw diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia. Ni thalodd y Gronfa am unrhyw becynnau o'r fath yn 2022–2023 (2021–2022: dim byd).

## Costau staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **11,159** | 10,300 |
| Taliadau YG y Cyflogwr | **1,165** | 1,006 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,924** | 2,693 |
| Costau staff dros dro | **879** | 187 |
| | **16,127** | 14,186 |

Oherwydd y ffordd y mae ein systemau'n gweithredu nid ydym yn gallu darparu dadansoddiad o'r costau rhwng staff ar gontractau parhaol a'r rheini ar gontractau cyfnod penodol.


Mae nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

| 2022–23 | Cyflwyno Busnes | Gwasanaethau Busnes | Arloesedd Busnes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | **157** | **40** | **45** | **242** |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | **25** | **14** | **7** | **46** |
| **Cyfanswm** | **181** | **54** | **53** | **288** |

| 2021–22 | Cyflwyno Busnes | Gwasanaethau Busnes | Arloesedd Busnes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 154 | 40 | 40 | 234 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 21 | 15 | 7 | 42 |
| **Cyfanswm** | 175 | 55 | 47 | 276 |

Nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## Lefelau absenoldeb




Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fel yr adlewyrchir ymysg cyflogwyr eraill, arhosodd lefelau salwch yn y Gronfa Dreftadaeth yn uchel yn 2022 o gymharu â chyfraddau absenoldeb cyn y pandemig. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i gyflyrau meddygol ac anghenion lles COVID-19 ac ôl-COVID-19. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod na chafodd absenoldebau yn 2020 a 2021 eu hadrodd yn ddigonol yn ystod y cyfnodau pan oedd staff yn gweithio gartref – ac ers i ni ddychwelyd i weithio hybrid rydym wedi gweld lefelau absenoldeb yn codi eto tuag at lefelau cyn y pandemig. Yn gyffredinol, mae ein lefelau absenoldeb yn debyg i feincnodau ehangach y DU ond yn parhau i fod yn is na llawer o gymaryddion cymheiriaid y sector cyhoeddus.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn parhau i flaenoriaethu cymorth lles i'n staff (gweler yr adran Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith isod) ac yn darparu gwasanaethau cymorth rhagorol drwy Iechyd Galwedigaethol.

## Ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion

### Arolwg staff 2022

Cyflogodd y Gronfa Treftadaeth ddarparwr arolwg arbenigol i gynnal arolwg gweithwyr llawn ym mis Mai 2022. Cymerodd chwe deg naw y cant o staff ran yn yr arolwg. Yn fras, mae'r canlyniadau'n dangos lefelau uchel iawn o ymgysylltu gan weithwyr ar draws sawl thema, gan gynnwys dros 90% o staff yn cadarnhau eu bod yn falch o weithio i'r sefydliad (gweler y sgorau 'uchaf' isod.) Mae nifer o feysydd eraill lle mae canlyniadau'r Gronfa Treftadaeth yn rhagori ar feincnodau cenedlaethol. Wedi dweud hynny, bu'r arolwg hefyd o gymorth wrth nodi meysydd i'w gwella (gweler y sgorau 'isaf' isod).

### Sgorau uchaf yr arolwg staff 2022

| Cwestiynau'r arolwg staff | % y gweithwyr a atebodd 'ydw/ydy' |
|---|---|
| Rwy'n deall sut rwy'n cyfrannu at lwyddiant y Gronfa Treftadaeth | **92%** |
| Gallaf gyflawni fy nyletswyddau yn y lleoedd sydd ar gael i mi i weithio | **92%** |
| Mae fy rheolwr yn agored ac yn onest gyda fi | **90%** |
| Rwy'n falch o weithio i'r sefydliad | **90%** |

### Sgorau isaf yr arolwg staff 2022

| Cwestiynau'r arolwg staff | % y gweithwyr a atebodd 'ydw/ydy' |
|---|---|
| Mae cyfleoedd gyrfa da i mi yn y sefydliad hwn | **26%** |
| Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn ddigon gweladwy | **45%** |
| Mae ein tîm Gweithredol yn fodelau rôl ar gyfer ein gwerthoedd a'n hymddygiadau | **50%** |
| Mae fy rheolwr yn dda wrth ymdrin â pherfformiad gwael | **55%** |
| Mae'r sefydliad hwn yn ymroddedig i ddatblygu ei bobl | **55%** |

Rydym wedi trafod adborth o'r arolwg staff gyda staff a'n Bwrdd ac mae'r materion a nodwyd yn ein sgorau isaf wedi'u grwpio i bum thema allweddol. O'r rhain rydym wedi datblygu cynllun arolwg staff

tair blynedd i nodi a chyflwyno camau gweithredu. Mae mentrau amrywiol eisoes wedi dechrau ac i sicrhau ein bod yn parhau i dderbyn adborth gan gydweithwyr rydym yn trefnu arolwg 'pwls' ar gyfer 2023 ac arolwg llawn arall o weithwyr ar gyfer 2024.

### Rhwydweithiau staff

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein chwe rhwydwaith staff mewnol i wella'r cymorth a gynigir gan gymheiriaid, ac fel sianel ddefnyddiol i'n cefnogi wrth ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion. Mae pob arweinydd rhwydwaith yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr. Mae ein rhwydweithiau'n cynnwys y grwpiau a ganlyn:

- Rhwydwaith Croestoriadedd
- Rhwydwaith Mwyafrif Byd-eang
- Rhwydwaith Rhywedd
- Rhwydwaith LHDTC+
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Anableddau

### Cyfarfodydd holl staff

Bu i ni barhau i gynnal cyfarfodydd holl staff rheolaidd i ddiweddaru staff am faterion busnes. Mae nifer dda wedi mynychu'r rhain ac rydym yn gwahodd staff i ofyn cwestiynau neu godi materion cyn y cyfarfodydd staff ac wrth iddynt ddigwydd. Bu i ni gynnal cynhadledd holl staff lwyddiannus iawn ym Manceinion ym mis Hydref 2022 i gynnwys ein staff wrth ddatblygu ein strategaeth newydd. Roedd hwn hefyd yn gyfle i'n gweithlu gwrdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers y pandemig.

## Undebau Llafur

Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, PCS a FDA, y mae'n cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi ymrwymo'n gryf i weithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi aelodaeth o undebau llafur.

Mae'r holl gynrychiolwyr undebau llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr undebau llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau undeb llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undeb llafur a gwariant perthnasol.

### Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn

| | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| Cynrychiolwyr undeb llafur | 19 |
| Cynrychiolwyr undeb llafur CaALl | 17.66 |

### Canran o oriau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran o oriau gwaith | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| 0% | 0 |
| 1–50% | 19 |
| 51%–99% | 0 |
| 100% | 0 |

### Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost yr amser cyfleuster | £43,694 |
| Cyfanswm bil tâl | £16,939,481 |
| Canran y tâl a dreuliwyd ar amser cyfleuster | 0.26% |

### Gweithgareddau undeb llafur â thâl

| | |
|---|---|
| Oriau a dreuliwyd ar amser gweithgareddau ULI â thâl | 89 |
| Canran y cyfanswm amser cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau ULI â thâl | 4.8% |

## Monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith o roi grantiau ac o'n llywodraethu, ein gweithlu, ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hyn yn ein pyrth a'n deunyddiau recriwtio. Rydym yn gwneud addasiadau rhesymol yn y cyfweliad ac yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i rolau, amgylchedd gwaith, ac addasiadau arbenigol etc.

Fe wnaethom barhau i gymryd rhan yn Rhaglen Change 100 Leonard Cheshire o leoliadau gwaith â thâl, datblygiad proffesiynol a mentora. Nod y Rhaglen yw dileu'r rhwystrau a brofir gan bobl anabl yn y gweithle, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial.

Bu i ni barhau â'n gwaith gyda Chymrodoriaeth Windsor a chreu mwy o swyddi i raddedigion o'r

Mwyafrif Byd-eang i weithio gyda ni am flwyddyn a datblygu cyfleoedd gyrfa mewn treftadaeth. Ar ôl cwblhau ein Hadolygiad EDI yn 2020, bu i ni sefydlu grŵp EDI ar draws y sefydliad, wedi'i gadeirio gan gyfarwyddwr ac Arweinydd Cydraddoldeb a Diwylliant y Gweithlu. Mae'r grŵp hwn yn goruchwylio gweithgareddau EDI, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad EDI a chynllun gweithredu EDI blynyddol yr adran AD.

## Dadansoddiad o amrywiaeth y gweithlu


Mae'r siartiau isod ac ar dudalen 32 yn dangos amrywiaeth y gweithlu, o ran ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU).

Rydym yn nodi nad yw ein gweithlu mor amrywiol mewn rhai meysydd o'i gymharu â lefelau cenedlaethol ac yn cydnabod bod rhai grwpiau staff sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym hefyd yn cydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach i fynediad i'r sector treftadaeth, y maent oll yn effeithio ar siâp ein gweithlu.

Rydym yn parhau â phrosesau recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd ac i ganolbwyntio ar weithio tuag at ein chwe nod craidd er mwyn gwella:

1. amrywiaeth mewn recriwtio
2. rheoli amrywiaeth y gweithlu
3. datblygiad gyrfaol staff a dangynrychiolir
4. cynhwysiad trwy wella cefnogaeth i staff
5. amrywiaeth trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith
6. amrywiaeth y gweithlu


### Amrywiaeth ethnig
### Staff Mwyafrif Byd-eang yn y gweithlu




Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae canran ein gweithlu o'r Mwyafrif Byd-eang wedi aros ar 10% dros y tair blynedd diwethaf, sef 4.5% o dangynrychiolaeth o'i gymharu â meincnod y DU.


### Amrywiaeth o ran anabledd
### Anabledd yn y gweithlu




Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cododd y ganran o'n gweithlu sydd ag anabledd i 12% er bod gennym dangynrychiolaeth o hyd o'i gymharu â meincnod y DU. Mae angen gwneud gwaith o hyd i recriwtio gweithwyr ag anableddau a byddwn yn parhau i hyrwyddo camau i ymdrin â hyn gyda chymorth gan ein rhwydweithiau staff.


### Amrywiaeth o ran rhyw
### Menywod yn y gweithlu




Ffynhonnell Meincnod y DU: GOV.UK

Rydym wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y menywod yn ein gweithlu, ond mae hyn yn dal yn sylweddol uwch na meincnod y DU. Mae gan lawer o sefydliadau eraill yn y sectorau treftadaeth ac elusennol lefelau uwch o gynrychiolaeth fenywaidd yn eu gweithlu.

**Amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol LHDTC+ yn y gweithlu**




Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae canran y cydweithwyr sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar (LHDTC+) neu gyfeiriadedd rhywiol arall yn y gweithle wedi aros ar 6% dros y tair blynedd diwethaf, sy'n uwch na meincnod y DU a sefydliadau cymharol eraill.

Mae gennym weithwyr sy'n dewis peidio â rhannu eu data cyfeiriadedd rhywiol, fodd bynnag, sy'n awgrymu bod angen ymdrech barhaus i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran cywain data a mewnwelediad, ac i wella'r cynhwysiad a deimlir gan gydweithwyr LHDTC+. Byddwn yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd y gwaith hwn gyda'n rhwydweithiau staff.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Fe wnaethom barhau i flaenoriaethu cymorth o ran lles gweithwyr ac iechyd a diogelwch ein staff. Fe wnaethom ddarparu mynediad i raglen cymorth i gyflogeion sydd wedi ennill gwobrau, gydag adnoddau a chanllawiau ar-lein a mynediad at wasanaethau cwnsela. Fe wnaethom gynnig mynediad i:

- ioga a tai chi am ddim
- asesiad iechyd cyn cyflogaeth ar gyfer recriwtiaid newydd i nodi pa adnoddau sydd eu hangen ar staff
- sgriniad Nuffield Health
- cymorth iechyd galwedigaethol ac addasiadau rhesymol i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor
- Gofynion DSE ar gyfer staff sydd wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys parhau i ddarparu hyfforddiant DSE gorfodol i bob gweithiwr newydd
- brechiadau ffliw i'r holl staff fel rhan o'n hymrwymiad i iechyd gweithwyr
- hyfforddiant gorfodol ar bynciau gan gynnwys ymwybyddiaeth iechyd meddwl a diogelwch tân
- trefniadau gweithio hybrid a gweithio hyblyg i gefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

## Rheoli cyfalaf dynol

Mae Strategaeth Pobl newydd ar gyfer 2023–2026 yn canolbwyntio ar bum thema, sef: rheoli perfformiad; arweinyddiaeth a rheolaeth; lle gwych i weithio; cynyddu sgiliau a hyder; a gwasanaethau AD a phobl ymatebol. Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn datblygu rheolwyr ac arweinwyr a sgiliau craidd i wella effeithiolrwydd y gweithlu a chefnogi dilyniant gyrfaol.


Mae'r ddarpariaeth ddysgu'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- datblygiad gweithredol
- datblygu arweinyddiaeth
- sgiliau rheoli
- sgiliau craidd i bawb
- hyfforddiant ac ymwybyddiaeth EDI
- astudio a noddir (gan gynnwys cymwysterau proffesiynol)
- cymorth datblygiad proffesiynol parhaus
- hyfforddiant sgiliau proffesiynol

Mae gan staff fynediad hefyd at gannoedd o adnoddau dysgu ar-lein i gefnogi cyfleoedd dysgu o bell/hybrid.

Fe wnaethom barhau i gefnogi a chymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Clore, gan noddi staff a chefnogi datblygiad talent yn y sector treftadaeth.

## Trosiant staff




Ffynhonnell Meincnod y DU: HR Review.co.uk

Roedd trosiant staff yn 2022–2023 yn 27% o'n lefelau staffio cyfartalog yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyfradd hon yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cyn y pandemig o 15% ac mae'n adlewyrchu trosiant uchel yn y farchnad gyflogaeth ehangach yn sgil y pandemig. Mae meincnodau'r DU yn dangos trosiant cyfartalog o 36% ar draws yr holl gyflogwyr. Roedd trosiant hefyd wedi'i yrru gan ein defnydd cynyddol o staff ar gontractau cyfnod penodol i ymdrin â gwaith cymorth grant cyfnod penodol, oherwydd natur tymor byr y penodiadau hynny.

Rydym yn nodi'r cydbwysedd rhwng cyfraddau cadw staff iach a recriwtio doniau newydd ac yn cydnabod yr her o ran cadw ein staff. Yn 2022, yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â staff a'n hundebau llafur, fe wnaethom gyflwyno gweithio hybrid sy'n galluogi ein pobl i weithio gartref neu ar safle nad yw'n un o'r swyddfeydd am hyd at dri diwrnod yr wythnos. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn camau gweithredu i gefnogi cadw staff, gan gynnwys cynyddu ein cyllideb dysgu a datblygu yn 2023 i gefnogi datblygiad gyrfaol.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd y Gronfa Treftadaeth £173,513 ar wasanaethau ymgynghori yn 2022–2023 (2021–2022: £447,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithrediadau. Yn 2022–2023, roedd hyn yn ymwneud â darparu system rheoli buddsoddiadau ac asesiadau seiberddiogelwch.

## Datgelu camarfer


Mae gan y Gronfa bolisi datgelu camarfer clir i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll o ran cyllid
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

Nid oedd unrhyw achosion o ddatgelu camarfer yn ystod y flwyddyn.

## Cyflogi oddi ar y gyflogres

Yn ystod 2022–2023 nid yw'r Gronfa Treftadaeth wedi cyflogi unrhyw unigolion drwy gontractau oddi ar y gyflogres sydd â goblygiad IR35. (2021–2022: dim byd)



**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

## Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon

### Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Weithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2023 ac am ei chyfanswm incwm cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol'. Rwy'n annibynnol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol mewn perthynas â digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuon sylweddol ar allu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wrth ystyried y gofynion a nodir yng Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nag ychwaith fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn echblyg fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi'r cyfryw anghysondebau materol neu gamddatganiadau materol tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1993.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- Nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu nad yw dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun yr archwiliad yn cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw datgeliadau tâl cydnabyddiaeth penodol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w archwilio'n cydweddu â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;

- darparu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu harchwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau o fewn Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol y mae'r archwilydd yn pennu ei bod yn angenrheidiol dderbyn tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath fesurau rheoli mewnol yn bodoli y bernir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg a'u bod yn cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn cael ei baratoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- asesu gallu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Weithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Fy amcanion yw dod o hyd i sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ai beidio, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â SARh (Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

#### I ba raddau yr ystyriwyd yr oedd yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Dyluniaf weithdrefnau'n unol â fy nghyfrifoldebau, sydd wedi'u hamlinellu uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

#### Nodi ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, bu i mi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol a’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys derbyn ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol ar:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
  - mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cronfa

Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a 'Rheoli Arian Cyhoeddus';

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu honiadau o dwyll;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer twyll gan nodi'r potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio siwrnalau anarferol, trafodion cymhleth, tuedd mewn amcangyfrifon rheoli a gwariant ar grantiau. Yn yr un ffordd â'r holl archwiliadau o dan SRhA (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi berfformio gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu ynddynt. Bu i mi ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd ag effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, 'Rheoli Arian Cyhoeddus', cyfraith cyflogaeth berthnasol a deddfwriaeth treth.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- bu i mi adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau gefnogol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adolygu, ac adroddiadau archwilio mewnol; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profais briodoldeb cofnodion siwrnal ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau a lunnir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosib; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol; a
- phrofais sampl o wariant grant i gael sicrwydd bod grantiau wedi'u gwario at y dibenion a fwriadwyd.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

### Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, chwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

10 Gorffennaf 2023

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

# Y datganiadau ariannol

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net

| | Nodiadau | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm gan y Loteri** | | | |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 2 | **353,619** | 361,550 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 2 | **7,096** | 512 |
| | | **360,715** | 362,062 |
| **Incwm arall** | | | |
| Llog derbyniadwy | 3 | **–** | – |
| Mân incwm | 4 | **30** | 29 |
| **Cyfanswm incwm** | | **360,745** | 362,091 |
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant grant | 5 | **(199,212)** | (163,145) |
| Llai gwariant grant sydd wedi darfod neu wedi'u diddymu | 5 | **10,959** | 9,055 |
| | | **(188,253)** | (154,090) |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau staff | 8 | **(16,127)** | (14,186) |
| Dibrisio ac amorteiddio | 11, 12 a 13 | **(978)** | (1,388) |
| Costau gweithredu eraill | 7 | **(9,213)** | (5,882) |
| | | **(26,318)** | (21,456) |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(214,571)** | (175,546) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr net** | | **146,174** | 186,545 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 43 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | Nodiadau | **Ar 31 March 2023 £'000** | Ar 31 March 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | **870** | 1,190 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 12 | **50** | 396 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 13 | **–** | 305 |
| Masnachu a symiau derbyniadwy eraill | 15 | **448** | 168 |
| | | **1,368** | 2,059 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Balans buddsoddi yn y Loteri Genedlaethol Cronfa Ddosbarthu | 2 | **526,770** | 427,088 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | **5,077** | 10,008 |
| Masnachu a symiau derbyniadwy eraill | 15 | **2,417** | 14,975 |
| | | **534,264** | 452,071 |
| **Cyfanswm asedau** | | **535,632** | 454,130 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau taladwy eraill | 16 | **(3,069)** | (2,996) |
| Rhwymedigaethau les | | **–** | (313) |
| Rhwymedigaethau grant | 5 | **(188,651)** | (214,173) |
| | | **(191,720)** | (217,482) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau net cyfredol** | | **343,912** | 236,648 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau taladwy eraill | 16 | **–** | – |
| Rhwymedigaethau les | | **–** | – |
| Rhwymedigaethau grant | 5 | **(363,192)** | (402,102) |
| | | **(363,192)** | (402,102) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(19,280)** | (165,454) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Ecwiti a ddygwyd ymlaen | | **(165,454)** | (351,999) |
| Symudiad y cyfanswm incwm cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn | | **146,174** | 186,545 |
| Ecwiti a gariwyd ymlaen | | **(19,280)** | (165,454) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 43 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Simon Thurley CBE**
Cadeirydd

**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

## Datganiad o Lifoedd Arian Parod

| | Nodiadau | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwarged gweithredu ar gyfer y cyfnod** | | **146,174** | 186,545 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 11,12 a 13 | **978** | 1,388 |
| **Gwarged gweithredu wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod** | | **147,152** | 187,933 |
| Gostyngiad yn y swm rhwymedigaethau grant wrth gefn | 5 | **(64,432)** | (80,182) |
| Cynnydd yn y balans NLDF | 2 | **(99,682)** | (98,340) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn masnachu a symiau derbyniadwy eraill | 15 | **12,278** | (1,834) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnachu a symiau taladwy eraill | 16 | **73** | (1,298) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(4,611)** | 6,279 |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | 11 | **(5)** | (329) |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | 12 | **(34)** | (6) |
| Gostyngiad yn yr ased hawl i ddefnyddio | 13 | **32** | 36 |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(7)** | (299) |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Rhwymedigaethau les | | **(313)** | (509) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod** | | **(4,931)** | 5,471 |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a gariwyd ymlaen | | **5,077** | 10,008 |
| Llai balans arian parod a ddygwyd ymlaen | | **(10,008)** | (4,537) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod** | | **(4,931)** | 5,471 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 43 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

| | Nodiadau | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | | **(165,454)** | (351,999) |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net | | **146,174** | 186,545 |
| **Balans terfynol** | | **(19,280)** | (165,454) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 43 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chaniatâd Trysorlys EF yn unol ag Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac i fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol (LlAA) Llywodraeth y DU.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LlAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu ddehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fydd y LlAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

#### a) Confensiwn cyfrifyddu

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu lle bo'n briodol ar gyfer gwerth teg.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, y LlAA a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

#### b) Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol; mae hyn yn gweddu i'r canllawiau a nodir yn y LlAA sy'n nodi y dylid "rhoi sylw i'r dybiaeth sylfaenol y bydd datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol". Ymhellach, mae'n datgan y "dylai endidau noddedig y mae eu datganiadau o sefyllfa ariannol yn dangos cyfanswm rhwymedigaethau net baratoi eu datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai, ar ôl trafod gyda'u noddwyr, yr ystyrir bod y sail busnes gweithredol yn amhriodol". Nid oes unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal. Nad oes gan CGDG unrhyw reswm dros gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan Y Loteri Genedlaethol.

O ran gweithgarwch grantiau'r Loteri Genedlaethol, tynnir arian parod i lawr o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol dim ond yn ôl yr angen. Polisi cydnabod dyfarniadau grant y Gronfa Treftadaeth yw rhoi cyfrif am werth llawn y dyfarniadau a wneir ar y pwynt cymeradwyo a hysbysu.

Mae pob cytundeb grant Loteri Genedlaethol a lofnodir hefyd yn cynnwys cymal sy'n nodi bod gan y Gronfa Treftadaeth yr hawl i beidio â thalu os nad yw cyllid o incwm y Loteri Genedlaethol ar gael.

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried y ceir unrhyw ansicrwydd materol yn eu casgliad ei bod yn briodol i'r cyfrifon gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

#### c) Cydnabod incwm

Mae'r incwm a dderbynnir gan Y Loteri Genedlaethol fel y'i gynghorir i ni gan DCMS, sy'n rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) – y gronfa y telir yr holl gyllid perthnasol gan y Loteri Genedlaethol iddi gan weithredwr y Loteri Genedlaethol a'r gronfa yr ydym yn tynnu symiau i lawr ohoni yr ydym eu hangen ar gyfer taliadau grant a chostau gweithredu. Mae DCMS yn darparu adroddiadau misol i ni ar lifoedd arian parod y Loteri Genedlaethol sy'n ddyledus i ni ynghyd â thystysgrif flynyddol i'n galluogi i gynhyrchu rhifau diwedd blwyddyn ar sail croniadau.

#### ch) Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i CGDG i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan CGDG mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol a'r rhai yn y dyfodol.

Rheolir CDLG gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer yr ymddiriedolwyr ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## d) Asedau anghyfredol

Ystyrir bod gan asedau anghyfredol fywyd byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) ac felly mae'r rheolwyr yn ystyried bod cost yn ddirprwy ar gyfer gwerth teg ac fe'i cydnabyddir felly yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ac eithrio ar gyfer eitemau sy'n costio llai na £2,000, y cânt eu diddymu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddiddymu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – Dros fywyd y les |
| Ased hawl i ddefnyddio – lesau eiddo | – Dros fywyd y les |
| Cyfarpar swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Ffitiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

O dan yr amgylchiadau hynny pan fo gweddill bywyd les ar eiddo'n llai na phedair blynedd, bydd unrhyw adnewyddiad neu gyfarpar na ellir ei symud yn cael ei ddibrisio dros weddill cyfnod y les.

Ni chyfalafir unrhyw gostau a gynhyrchir yn fewnol. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

## dd) Dyrannu costau

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EF. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2021–2022: 99%).

## e) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer treth gyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Ni all CGDG adfer Treth ar Werth (TAW) a godir arni, ac mae'r gost gan gynnwys TAW wedi'i chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## f) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

## ff) Lesau

Mabwysiadodd CGDG IFRS 16 am y tro cyntaf yn 2019–2020. Mae asedau hawl defnyddio yn cael eu nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gost a bennir gan werth presennol y taliadau sy'n ddyledus o dan bob les. Caiff y costau eu hamorteiddio dros isafswm cyfnod y les. Mae costau ariannol gwasanaethu'r asedau ar les yn cael eu codi fel llog yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net.

Codir y rhenti blynyddol ar unrhyw lesau sydd y tu hwnt i'r diffiniad sy'n ofynnol yn ôl IFRS 16 i'r datganiad incwm cynhwysfawr net ar sail llinol dros gyfnod y les.

## g) Rhwymedigaethau grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn, boed yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol.

Caiff dyfarniadau grant eu cydnabod fel gwariant a rhoddir cyfrif am ymrwymiadau pan:

- fo'r dyfarniad wedi'i benderfynu'n ffurfiol gan y Gronfa Treftadaeth; a

- phan fo'r dyfarniad wedi'i hysbysu i'r derbynnydd arfaethedig; a
- phan fo'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau perfformiad penodol o dan reolaeth y Gronfa Treftadaeth

Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach, gan nad yw'r prosiect sy'n cael ei ariannu'n gofyn am yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad.

Mae dau fath o rwymedigaeth grant:

1) pan wnaed y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r grantï. Pan fydd y grantï wedi cael ei hysbysu am ein penderfyniad i ddyfarnu grant iddo, caiff yr ymrwymiad ei drin fel rhwymedigaeth lawn.

2) pan roddir pas rownd gyntaf i brosiect treftadaeth. Yn yr amgylchiadau hyn pan fydd yr ariannu'n amodol ar ail benderfyniad, rydym yn datgelu'r rhain fel rhwymedigaethau amodol.

Ceir dadymrwymiadau ar rwymedigaethau amodol pan na throsir ymrwymiad i rwymedigaeth lawn. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd i'r grantï benderfynu i beidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu'r holl geisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen am gynnal cyllid wrth gefn digonol.

## ng) Benthyciadau

Mae gan ymddiriedolwyr yr hawl i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o'n cylch gwaith i wella a diogelu treftadaeth y DU ac nid i gasglu llifoedd arian contract neu i'w hailwerthu. Gan hynny, o dan IFRS 9, Offerynnau Ariannol, bydd benthyciadau'n cael eu prisio ar werth teg pan fydd unrhyw addasiad yn faterol, gyda'r addasiad yn mynd trwy'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net. Pan godir llog, byddwn yn cydnabod y llog yn y flwyddyn y caiff ei gronni er gwaetha'r ffaith y caiff ei dderbyn mewn blwyddyn ddiweddarach o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

## h) Cynlluniau grant ar y cyd

Pan fydd CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parks for People gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; y rhaglen Great Place gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr) nid ydym yn cydnabod symiau a dderbynnir gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, mae'r cyllid a dderbynnir gan y cyrff hyn yn cael ei drosglwyddo i grantïon neu gyflenwyr. Gan hynny nid ydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant y cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan i ni drosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill ymlaen at y grantï. Yn yr un modd nid ydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredu ar gyfer y cynlluniau hyn ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredu o'r sefydliadau eraill i gyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae gan fwy nag un parti ran yn y broses benderfynu ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parks for People, mae cynrychiolwyr CGDG a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ill dau'n penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Yn y sefyllfaoedd hynny pan roddir cyllid i ni heb unrhyw gyfranogiad yn y penderfyniad terfynol ar y dyfarniad, rydym yn trin y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, yna mae'r rhodd yn cael ei rhoi i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, trinnir y cyllid fel rhodd i CGDG hyd yn oed os caiff ei aseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y pen draw.

## i) Amcangyfrif ansicrwydd

Mae paratoi'r cyfrifon hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau a all effeithio ar fesur incwm, treuliau, asedau, rhwymedigaethau a gofnodir a datgelu rhwymedigaethau wrth gefn. Gall hefyd effeithio ar y dyraniad costau rhwng ein cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Os yw'r amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn, sy'n seiliedig ar amcangyfrif neu farn orau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, caiff yr amcangyfrifon a'r tybiaethau gwreiddiol eu diweddaru yn y cyfnod y bydd yr amgylchiadau'n newid ynddo.

Mae ein hamcangyfrifon a'n dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

**Darpariaeth ar rwymedigaethau grant**
Bob blwyddyn rydym yn gwneud darpariaeth yn erbyn rhwymedigaethau grant a gydnabyddir yn y cyfrifon. Mae hyn yn cynnwys:

- dad-ymrwymiadau y gwyddys amdanynt ar ôl diwedd y flwyddyn
- rhwymedigaethau a allai fod yn anactif, hy: heb dderbyn unrhyw daliadau grant na chyswllt ers nifer o flynyddoedd
- prosiectau lle mae'r taliad terfynol wedi ei wneud ond nid yw'r prosiect wedi'i gau

**Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd**
Mae gennym system cofnodi amser ar waith i staff nodi pa raglenni y maent yn gweithio arnynt ac mae costau'n cael eu hailgodi yn seiliedig ar y data hwnnw. Mae'n ofynnol i staff gofnodi faint o amser y maent yn ei dreulio ar bob rhaglen bob mis.

## 2. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | **427,088** | 328,748 |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | **353,619** | 361,550 |
| Incwm buddsoddi o CDLG | **7,096** | 512 |
| Arian a dynnwyd i lawr o CDLG | **(261,033)** | (263,722) |
| **Balans a gariwyd ymlaen** | **526,770** | 427,088 |

## 3. Llog derbyniadwy

Ni dderbyniwyd unrhyw log yn 2022–2023 (2021–2022: £dim byd).

## 4. Mân incwm

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **29** | 28 |
| Mân incwm arall | **1** | 1 |
| | **30** | 29 |

## 5. Rhwymedigaethau grant

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen | **616,275** | 696,457 |
| Ymrwymiadau yn y flwyddyn | **199,212** | 163,145 |
| Dad-ymrwymiadau | **(10,959)** | (9,055) |
| Ymrwymiadau a dalwyd | **(252,685)** | (234,272) |
| **Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen** | **551,843** | 616,275 |

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau a ganlyn:

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Ymhen un flwyddyn | **188,651** | 214,173 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | |
| Ymhen dwy flynedd | **131,503** | 144,467 |
| Ymhen tair blynedd | **78,759** | 86,791 |
| Ymhen pedair blynedd | **42,202** | 45,738 |
| Ymhen pum mlynedd | **21,225** | 23,492 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **89,503** | 101,614 |
| | **363,192** | 402,102 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol ac anghyfredol** | **551,843** | 616,275 |

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y niferoedd uchod yn net o ddarpariaeth o £8.3miliwn (31 Mawrth 2022: £6.7miliwn) am symiau yr ydym yn eu rhagweld efallai na chânt eu talu yn y blynyddoedd i ddod.

## 6. Rhwymedigaethau amodol

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli gwerth dyfarniadau grant posib y mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi pasys rownd un ar eu cyfer. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n mynd yn ddyfarniadau grant neu'n cael eu gwrthod.

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth amodol a ddygwyd ymlaen | **200,993** | 115,811 |
| Ymrwymiadau yn y flwyddyn | **201,726** | 150,805 |
| Dad-ymrwymiadau | **(4,383)** | (5,010) |
| Ymrwymiadau a dalwyd | **(68,064)** | (60,613) |
| **Rhwymedigaeth amodol a gariwyd ymlaen** | **330,272** | 200,993 |

## 7. Costau gweithredu eraill

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **834** | 602 |
| Post a ffonau | **267** | 272 |
| Nwyddau swyddfa, argraffu a nwyddau papur | **12** | 33 |
| Taliadau o dan lesau gweithredol – hurio cyfarpar swyddfa | **20** | 40 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | |
| – ymddiriedolwyr | **107** | 27 |
| – staff | **452** | 219 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| – cysylltiedig â grantiau | **1,695** | 1,647 |
| – ddim yn gysylltiedig â grantiau | **4,118** | 2,568 |
| Tâl cydnabyddiaeth archwilwyr | **45** | 41 |
| Cyfathrebu | **517** | 132 |
| Cyfarpar swyddfa | **714** | 173 |
| Hyfforddiant staff | **320** | 25 |
| Mân dreuliau | **112** | 103 |
| | **9,213** | 5,882 |

Ni thalwyd unrhyw ffioedd am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol.

## 8. Costau staff

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **11,159** | 10,300 |
| Taliadau YG y Cyflogwr | **1,165** | 1,006 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,924** | 2,693 |
| Costau staff dros dro | **879** | 187 |
| | **16,127** | 14,186 |

## 9. Costau a ailgodir

Yn ystod 2022–2023, dosbarthodd CGDG symiau o arian gan wahanol sefydliadau llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau gweithredu ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2021–2022: 99%).

Rydym yn nodi cyfran y gwaith a wneir gan staff ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol ac yn ailgodi hyn ar y rhaglenni amrywiol a gefnogir gan gymorth grant. Rydym hefyd yn cyfrifo dyraniad gorbenion cysylltiedig fel rhan o'r dasg hon o ailgodi costau.

Cyfanswm gwerth yr ad-daliadau hyn yn 2022–2023 oedd £2.4miliwn (2021–2022: £5.0miliwn).

## 10. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r gyfran o'n hincwm Loteri Genedlaethol a wariwn ar ei ddosbarthu, wedi'i asesu dros gyfnod o dair blynedd. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau yr ydym yn eu hailgodi ar CGDG a chostau buddsoddi untro (eitemau eithriadol) i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Yn 2022–2023, yr eitemau eithriadol hyn oedd costau ein system rheoli buddsoddiadau wedi'i huwchraddio (£1.3miliwn) a chostau ein cyflwyniad digidol mewnol (£0.5miliwn).

Roedd y gost o ddosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri Genedlaethol yn 6.8% o incwm y Loteri Genedlaethol yn y flwyddyn (2021–2022: 5.9%). Wedi'i hasesu dros y cyfnod treigl o dair blynedd, 5.9% oedd y gyfran.

| | **2022–23** | 2021–22 | 2020–21 |
|---|---|---|---|
| Costau gweithredu | **26,318** | 21,456 | 18,272 |
| Llai eitemau eithriadol | **(1,812)** | – | – |
| **Cyfanswm gwariant cymwys** | **24,506** | 21,456 | 18,272 |
| | | | |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | **353,619** | 361,550 | 362,755 |
| Incwm buddsoddi | **7,096** | 512 | 212 |
| **Cyfanswm incwm cymwys** | **360,715** | 362,062 | 362,967 |
| | | | |
| **Canran** | **6.8%** | 5.9% | 5.0% |

### Sefyllfa tair blynedd dreigl

| | **Ar 31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|
| Cyfanswm gwariant cymwys | **64,234** |
| Cyfanswm incwm cymwys | **1,085,744** |
| **Canran** | **5.9%** |

## 11. Asedau anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **582** | 582 | **3,642** | 3,313 | **4,224** | 3,895 |
| Ychwanegiadau | **–** | – | **5** | 329 | **5** | 329 |
| Gwarediadau | **(456)** | – | **–** | – | **(456)** | – |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **126** | 582 | **3,647** | 3,642 | **3,773** | 4,224 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | **537** | 512 | **2,497** | 2,225 | **3,034** | 2,737 |
| Gwaredu | **(456)** | – | **–** | – | **(456)** | – |
| Tâl am y flwyddyn | **26** | 25 | **299** | 272 | **325** | 297 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **107** | 537 | **2,796** | 2,497 | **2,903** | 3,034 |
| Llyfrwerth net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **45** | 70 | **1,145** | 1,088 | **1,190** | 1,158 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **19** | 45 | **851** | 1,145 | **870** | 1,190 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol.

## 12. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Eiddo prydles fer | | TG a chyfarpar arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,152** | 1,152 | **1,099** | 1,093 | **59** | 59 | **2,310** | 2,304 |
| Ychwanegiadau | **–** | – | **34** | 8 | **–** | – | **34** | 8 |
| Gwarediadau | **(1,152)** | – | **(961)** | (2) | **(59)** | – | **(2,172)** | (2) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 1,152 | **172** | 1,099 | **–** | 59 | **172** | 2,310 |
| Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn | **1,001** | 741 | **865** | 519 | **48** | 29 | **1,914** | 1,289 |
| Gwarediadau | **(1,152)** | – | **(961)** | – | **(59)** | – | **(2,172)** | – |
| Tâl am y flwyddyn | **151** | 260 | **218** | 346 | **11** | 19 | **380** | 625 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 1,001 | **122** | 865 | **–** | 48 | **122** | 1,914 |
| Llyfrwerth net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **151** | 411 | **234** | 574 | **11** | 30 | **396** | 1,015 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **–** | 151 | **50** | 234 | **–** | 11 | **50** | 396 |

Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri Genedlaethol ac 1% cymorth grant (gweler nodyn 9).

## 13. Ased hawl i ddefnyddio (IFRS 16)

Yn 2022–2023, daeth y lesau ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd, Nottingham a Newcastle i ben. Mae'r lesau newydd ar gyfer Llundain (trwydded i feddiannu) a Chaerdydd (les tymor byr) y tu hwnt i gwmpas IFRS16. Mae lesau swyddfeydd Nottingham a Newcastle yn dal i fod yn destun trafodaethau ac felly nid oes unrhyw gytundebau les wedi'u llofnodi eto.

Ased hawl i ddefnyddio:

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | **305** | 807 |
| Creu ased hawl i ddefnyddio | **–** | 22 |
| Gostyngiad yn yr ased hawl i ddefnyddio | **(32)** | (58) |
| Amorteiddiad | **(273)** | (466) |
| Balans ar ddiwedd y flwyddyn | **–** | 305 |

## 14. Ymrwymiadau les

Nid ydym yn cyfalafu ein holl lesau gan fod IFRS 16 yn caniatáu eithriadau ar gyfer lesau bach a lesau tymor byr. Ar gyfer yr eitemau hynny rydym yn datgelu isafswm taliadau les y dyfodol sydd i'w talu gan weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG fel a ganlyn:

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | **16** | 16 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **33** | – |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **–** | – |
| | **49** | 16 |

Mae lesau eraill yn cyfeirio at beiriannau llungopïo a ffrancio.

## 15. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### Asedau anghyfredol

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **448** | 168 |
| | **448** | 168 |

### Asedau cyfredol

| | 2022–23 £'000 | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **359** | 2,653 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **135** | 245 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **1,921** | 12,075 |
| Blaendaliadau i staff | **2** | 2 |
| | **2,417** | 14,975 |

Mae'r gostyngiad arwyddocaol mewn symiau derbyniadwy eraill yn 2022–2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd symiau derbyniadwy is sy'n ddyledus gan CGDG o weithgarwch cymorth grant. Mae hyn oherwydd i weithgarwch leihau'n sylweddol yn 2022–2023 wrth i'r rhaglenni brys ddod i ben.

## 16. Masnach a symiau taladwy eraill

| | 2022–23 £'000 | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredu taladwy | **1,038** | 921 |
| Symiau taladwy eraill gan gynnwys treth a nawdd cymdeithasol | **624** | 665 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **1,407** | 1,410 |
| | **3,069** | 2,996 |

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus o fewn blwyddyn ac yn cael eu cynnwys yn y rhwymedigaethau cyfredol.

## 17. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer neu ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

## 18. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol) wedi cynnal trafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Fel y nodir yn y cyfrifon hyn, mae CGDG wedi dosbarthu arian ar ran gwahanol sefydliadau llywodraethol: Defra, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Am wybodaeth bellach, gweler cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan nad arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol mo hwn.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parks for People a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ar Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol £1,237,000 i CGDG, gan gynrychioli £31,000 ar gyfer costau gweithredu Parks for People a £1,206,000 ar gyfer ei chyfran o'r taliadau grant Parks for People. Codwyd arnom hefyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Roedd arnom ni £1,539 ar ddiwedd y flwyddyn. Bu trafodiad gwerth £8,000 gan gynrychioli secondiad aelod o'n staff i Fforwm y Loteri.

Gwnaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr ad-daliad i ni a oedd yn ddyledus am daliadau grant y rhaglen grantiau Great Place ar y cyd a wnaed gennym ar eu rhan. Mae'r rhaglen bellach wedi dod i ben. Bu trafodiad gwerth £3,000 gan gynrychioli secondiad aelod o'n staff i Fforwm y Loteri.

Talwyd £176,000 i Historic England yn ystod y flwyddyn am ofod swyddfa yn Llundain. O hyn, mae £58,000 yn ymwneud â chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023–2024. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu trafodiad gwerth £2,000 gyda Sport England a £1,000 gyda UK Sport gan gynrychioli secondiad aelod o'n staff i Fforwm y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw beth yn ddyledus i ni.

Y tu allan i'r teulu DCMS o gyrff a noddir gan lywodraeth ganolog, bu trafodion hefyd gyda Swyddfa'r Cabinet gwerth £7,000 am wahanol faterion gweinyddol; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus i ni ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu i ni ailgodi costau monitro a mentora prosiectau penodol a oedd wedi derbyn cymorth grant i ganghennau Llywodraeth Yr Alban (Historic Environment Scotland). Roedd biliau gwerth cyfanswm o £3,000 yn y flwyddyn ac roedd £3,000 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd 24 o ddyfarniadau lle datganodd aelod o Bwyllgor Gwlad neu Ardal fuddiant:

### Museums Galleries Scotland

Grant datblygu o £61,111 a grant cyflwyno posib o £700,569 – Delivering Change: A Participatory Narrative for Scotland's Museums

Datganodd Ray Macfarlane fuddiant fel cadeirydd Museums Galleries Scotland.

### Scottish Natural Heritage

Grant o £4,232,000 – Species on the Edge

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Gyfarwyddwr y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Yr Alban tan 2017 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol RSPB ar draws y DU tan fis Hydref 2017.

Mae'r RSPB yn bartner arwyddocaol yn y prosiect.

### Next Step Initiative

Grant datblygu o £24,680 a grant cyflwyno posib o £691,713 – Menter Dreftadaeth – The Heritage Leader Traineeship Programme

Datganodd Ray Macfarlane fuddiant fel cadeirydd Museums Galleries Scotland, partner yn y prosiect.

### Y Llyfrgell Brydeinig

Grant datblygu o £194,846 a grant cyflwyno posib o £4,782,504 – Sefydlu safle newydd y Llyfrgell Brydeinig yn Temple Works, Leeds

Datganodd Simon Thurley fuddiant fel un o ymddiriedolwyr y Llyfrgell Brydeinig.

### The Churches Conservation Trust

Grant datblygu o of £393,507 a grant cyflwyno posib o £3,232,355 – The Chamber at St Johns (Menter Treftadaeth)

Datganodd Carol Pyrah fuddiant fel ymddiriedolwr Churches Conservation Trust.

### Heritage Trust Network

Grant datblygu o £208,944 a grant cyflwyno posib o £1,078,706 – Essential Networks: strengthening local resilience and diversity

Datganodd Liz Bates fuddiant fel cadeirydd Heritage Trust Network.

### Great Yarmouth Preservation Trust

Grant datblygu o £169,604 a grant cyflwyno posib o £1,885,396 – Saving the Iron Duke (Menter Treftadaeth)

Datganodd Chris Starkie fuddiant fel Prif Weithredwr New Anglia LEP. Roedd yr LEP wedi anfon llythyr o gefnogaeth i'r cais.

### YMCA Swydd Gaerlŷr

Grant datblygu o £160,408 a grant cyflwyno posib o £2,287,795 – Your Heritage Your Future (YHYF)

Datganodd Helen Wilson fuddiant fel aelod o Fwrdd Amgueddfeydd Norfolk, partner yn y prosiect.

### Gainsborough's House Society

Cynnydd mewn grant o £689,000 i wneud cyfanswm grant o £5,755,200 – Reviving an artist's birthplace: A National Centre for Gainsborough

Datganodd Chris Starkie fuddiant fel Prif Weithredwr New Anglia LEP, a oedd wedi darparu rhywfaint o ariannu tuag at y prosiect ac a restrwyd fel partner yn y cynllun.

### Clonduff Development Enterprise (COI) Limited

Grant datblygu o £141,916 a grant cyflwyno posib o £1,130,561 – The Square – Transforming the Heart of Hilltown

Datganodd Sally Montgomery fuddiant am iddi gynorthwyo'r ymgeisydd gyda rhywfaint o ymchwil ar gyfer y cais.

### Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Grant o £720,000 – Rathlin Acting for Tomorrow

Datganodd Olive Hill a Sally Montgomery fuddiant ill dwy am eu bod yn gomisiynwyr Irish Lights (CIL) sy'n lesio'r tir i'r grŵp (RSPB).

### London Borough of Bromley

ant datblygu o £304,350 a grant cyflwyno posib o £4,695,649 – Restoring the heritage of the iconic Crystal Palace Park for all

Datganodd Lydia Lee fuddiant am ei bod yn gyfarwyddwr cynorthwyol diwylliant ac adfywio Cyngor Bromley, a hi yw prif gyswllt y prosiect.

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor

Grant datblygu o £60,516 a grant cyflwyno posib o £1,111,330 – Exmoor Pioneers – Past, Present and Future.

Datganodd Nick Holliday fuddiant am ei fod yn gwasanaethu fel aelod o fwrdd yr awdurdod ac yn ddirprwy gadeirydd tan fis Mehefin 2020.

The Tank Museum Limited
Grant o £100,000 – The Tank Museum – Online Video Expansion

Datganodd Richard Smith fuddiant fel cyfarwyddwr The Tank Museum.

Cyngor Swydd Dyfnaint
Grant o £248,000 – Finding Nature's Footprints

Datganodd Caroline Kay fuddiant fel un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner â buddiant yn y prosiect.

Trent Park Museum Trust
Grant o £225,000 – Trent Park House: A Digital Museum

Datganodd Simon Thurley fuddiant fel rheolwr gyfarwyddwr Architrave Historical Services Ltd, ymgynghoriaeth sy'n cyfrif Trent Park Museum Trust fel cleient.

Florence Nightingale Museum Trust
Grant o £98,955 – #DYC From Scutari Hospital to NHS Nightingale: The British Hotel to Seacole Recovery Centres

Datganodd Claire Madge fuddiant gan y gallai'r grantï fod wedi defnyddio dyfyniad cefnogol ganddi yn ei gais.

The National Forest Company
Grant o £224,228 – National Forest Community Woodlands

Datganodd John Everitt fuddiant fel Prif Weithredwr The National Forest Company.

Leicester City Football Club Trust Limited
Grant o £142,558 – Outdoor Learning

Datganodd John Everitt fuddiant fel Prif Weithredwr The National Forest Company, a oedd yn bartner yn y prosiect.

Natural History Society of Northumbria
Grant o £110,600 – #DYC Nature's Cure in Times of Need: New Voices for North East Nature

Datganodd Carol Pyrah fuddiant am fod y grantï yn ymwneud â llywodraethu Urban Green Newcastle, y mae Carol yn Brif Weithredwr arno. Maent yn aelodau o'r cwmni ac yn mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhinwedd y swydd honno.

St Barbe Museum & Art Gallery
Grant o £181,411 – #DYC St Barbe Sharing and Celebrating Heritage

Datganodd Stephen Boyce fuddiant fel noddwr ac ymgynghorydd achlysurol i'r amgueddfa.

Beckford Tower Trust
Grant o £94,446 – Beckford Tower and the Cane Warriors

Datganodd Caroline Kay fuddiant am mai hi oedd Prif Weithredwr Beckford Tower Trust o 2007 tan 2021.

Sinai Park House Trust
Grant o £51,118 – Sinai Park House Options Appraisal and Viability Study

Datganodd John Everitt fuddiant am fod The National Forest Company, y mae'n Brif Weithredwr iddo, wedi talu am waith prosiect ar y safle yn ddiweddar ac wedi cynnig rhywfaint o gymorth i'w datblygiad prosiect blaenorol i adfer y tŷ.

National Centre for Writing
Grant o £103,486 – Next Chapter – Stepping into Dragon Hall's Story

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau am ei bod ar Fwrdd Ymddiriedolwyr The National Centre for Writing.

## 19. Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan CGDG y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth grant.

Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu cadw i reoli'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

## Risg hylifedd

Yn 2022–2023, deilliodd £353miliwn (98%) o incwm dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Mae'r incwm sy'n weddill yn deillio o enillion buddsoddi ar y balans a gedwir gyda CDLG o £7miliwn (2%) ynghyd â swm bach o ad-daliadau grant.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu eu rhwymedigaethau grant a symiau taladwy eraill yn sylweddol uwch na gwerth yr arian yn CDLG ar 31 Mawrth 2023.

Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt adnoddau hylif digonol o fewn CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cydweddu â'r asedau, ac y gall yr ymddiriedolwyr fodloni eu rhwymedigaethau'n llawn. Gan hynny, hyd yn oed os bu dirywiad tymor hir mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol, byddai'n dasg syml i'r ymddiriedolwyr addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny. Awgryma rhagamcaniadau o incwm gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer 2023–2024 y bydd yr incwm ar lefelau boddhaol.

## Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn CDLG, sy'n buddsoddi o fewn amrediad cul o asedau risg isel megis bondiau ac arian parod llywodraeth y DU. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad y cyllid hwn. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, £527miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn CDLG ar y farchnad.

Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 2.32% yn ystod y flwyddyn: 0.2%). Delir ein balansau arian parod, sy'n symiau a dynnir i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) i alluogi ni i dalu grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, yr oedd ganddynt gyfradd llog gyfartalog o 0% yn y flwyddyn.

| | 2022–23 £'000 | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| **Balansau arian parod** | | |
| – Arian parod a chyfwerth ag arian parod | **5,077** | 10,008 |
| – Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | **526,770** | 427,088 |
| | **531,847** | 437,096 |

## Risg credyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys, bron yn gyfan gwbl, rhagdaliadau, incwm cronedig (yn bennaf ar lesau eiddo a chyfraddau busnes) a balansau rhynglywodraethol. Yn bennaf mae'r balansau rhynglywodraethol gyda chyrff a noddir gan DCMS. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd â gwasanaeth a benthyciadau nad ydynt yn ddyledus i gael eu had-dalu am nifer o flynyddoedd, roeddent oll wedi cael eu talu erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

## Risgiau arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| | 2022–23 £'000 | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| **Asedau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | | |
| – balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | **526,770** | 427,088 |
| – arian parod a chyfwerth ag arian parod | **5,077** | 10,008 |
| – masnachu a symiau derbyniadwy eraill | **2,865** | 15,143 |
| | **534,712** | 452,239 |

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

| | 2022–23 £'000 | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | | |
| – symiau grant taladwy | **551,843** | 616,275 |
| – symiau masnachu taladwy | **1,038** | 921 |
| – symiau taladwy eraill | **624** | 665 |
| – croniadau | **1,407** | 1,723 |
| | **554,912** | 619,584 |

### Gwerthoedd teg

1. Mae'r ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r llyfrwerth fod o'r unfaint â'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol.
2. Mae'r holl adneuon arian parod gyda banciau masnachol seiliedig yn y DU.
3. Rheolir buddsoddiadau (CDLG) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer yr ymddiriedolwyr ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.
4. Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled. Nid yw unrhyw un o'r dyledion yn rhai tymor hir ar wahân i'r benthyciadau tymor hir.
5. Er i ni ddatgelu gwerth £363miliwn o symiau grant taladwy nad ydynt yn ddyledus i'w talu tan ar ôl un flwyddyn yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os bydd y prosiectau treftadaeth sylfaenol yn gwneud cynnydd cyflymach na'r hyn a ddisgwylir.
6. Mae'r holl symiau taladwy nad ydynt yn ymwneud â grantiau'n ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14–30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| | **2022–23 £'000** | 2021–22 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen llai nag un flwyddyn | **554,912** | 619,584 |
| Ymhen mwy nag un flwyddyn ond llai na dwy | **–** | – |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **–** | – |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **–** | – |
| | **554,912** | 619,584 |

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a symiau sy'n ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw.

Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn yn y tabl uchod.

## 20. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn 2022–2023, diddymodd y Gronfa Treftadaeth 10 grant gwerth cyfanswm o £62,013. (2021–2022: pum grant gwerth £96,381).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn yn ôl y gyfraith ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol.
- cymeradwyir taliadau ex gratia

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig (2021–2022: dim byd).

## 21. Asedau amodol

Mae gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i dderbyn cyfran o'r derbyniadau o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am eu cyfraniad o £675miliwn ychwanegol i ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cyhoeddwyd hyn yn 2007. Mae'r trefniadau wedi'u nodi mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy'n nodi'r dosbarthiad arian rhwng GLA a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol (drwy DCMS). Rydym yn parhau i ymgysylltu â GLA ar ragolygon ar gyfer gwerthiannau tir yn y Parc Olympaidd.

## 22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon y mae angen addasu'r datganiadau ariannol ar eu cyfer. Dehonglir y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Cyfarwyddiadau polisi

# Cyfarwyddiadau polisi

## Llywodraeth y DU

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan ddefnyddio ei phwerau o dan adrannau 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 mewn perthynas â dosbarthu arian o dan Adran 25(4) y Ddeddf honno.

Mae'r cyfarwyddiadau DU yn berthnasol i'r holl grantiau ariannu a wneir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Mae cyfarwyddiadau ychwanegol yn berthnasol ar gyfer pob un o wledydd y DU.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

### 1. Mewn partneriaeth ag arianwyr a rhanddeiliaid eraill, asesu anghenion treftadaeth y DU i gyfeirio dyfarnu arian, gan gymryd unrhyw ddynodiad a threftadaeth mewn perygl i ystyriaeth benodol.

Trwy gydol 2022–2023, datblygodd y Gronfa Treftadaeth ei phanel ymchwil, Pwls Treftadaeth, ymhellach mewn partneriaeth â Historic England. Mae'r prosiect yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid i gynhyrchu mewnwelediad ar draws y DU, gan gynnwys:

- Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol
- Built Environment Forum Scotland
- Department for Communities, Northern Ireland
- Historic Environment Scotland
- NatureScot, Asiantaeth Natur Yr Alban
- Y Gynghrair Treftadaeth
- Wildlife and Countryside Link

Mae tonnau o ymchwil wedi helpu i asesu anghenion sefydliadau treftadaeth y DU nawr ac yn y dyfodol ac wedi cyfeirio datblygiad strategaeth newydd y Gronfa Treftadaeth yn uniongyrchol.

### 2. Cynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian.

Gan weithio gyda Social Investment Consultancy, comisiynodd y Gronfa Treftadaeth ymchwil gyda sefydliadau treftadaeth, gwirfoddol a chymunedol llai ar draws y DU, ac mae'r canfyddiadau wedi cyfeirio datblygiad ein strategaeth ar themâu megis cynhwysiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Cyfrannodd aelodau o'r cyhoedd hefyd at ddatblygu ein strategaeth yn ystod yr haf trwy grwpiau ffocws ac ymchwil syndicet.

Ym mis Medi 2022, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ymchwil ar gynwysoldeb, gan ddarparu argymhellion ymarferol ar wella canfyddiadau o dreftadaeth, arfer cynhwysol ac ymdrin ag anghenion cymorth. Mae'r Gronfa Treftadaeth yn rhoi'r camau hyn ar waith ar hyn o bryd, drwy arweiniad wedi'i ddiweddaru, cynnwys cyfathrebu cryfach ac addasiadau rhesymol gwell.

## 3. Ehangu mynediad a chyfranogiad ar gyfer y rhai nad ydynt yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Roedd cynyddu mynediad i dreftadaeth a chynyddu cyfleoedd i gymryd rhan yn ganolog i'n buddsoddiadau ar draws y DU dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn y cyfamser, roedd adroddiad Sefydliad Baring, 'Creatively minded and heritage', yn cynnwys 18 enghraifft o astudiaethau achos o bartneriaethau â'r sector treftadaeth. Ym mis Mehefin 2022, cynhaliodd y Gronfa Treftadaeth seminar cyhoeddus i arddangos yr hyn a ddysgwyd o'r enghreifftiau hyn ac i amlygu sut y gallai sefydliadau treftadaeth adeiladu partneriaethau cynaliadwy ag arbenigwyr iechyd meddwl.

Drwy gydol ein gwaith dros y flwyddyn, cefnogodd y Gronfa Treftadaeth brosiectau i wella mynediad at dreftadaeth. Dan arweiniad pobl ddall a rhannol ddall, darparodd ymchwil Vocal Eyes, 'Heritage Access 2022', dystiolaeth o'r camau sydd eu hangen i wella mynediad ar-lein i dreftadaeth, gan nodi adnoddau ac arfer da i helpu sefydliadau i gyflwyno newid.

## 4. Ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ddeffro eu diddordeb a chyfranogiad yn y gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr achosion treftadaeth da.

Cwblhaodd y 12 prosiect a ariannwyd drwy Kick the Dust, ein buddsoddiad strategol mewn mynediad pobl ifanc a'u hymwneud â threftadaeth, eu blwyddyn olaf o gyflwyno yn 2022–2023, gyda phrosiectau'n cyhoeddi ac yn rhannu eu dysgu a'u heffaith gyda'r sectorau treftadaeth ac ieuenctid. Mae miloedd o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc o ystod amrywiol o gefndiroedd, gan gynnwys llawer o bobl ifanc o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gweithluoedd a chynulleidfaoedd treftadaeth presennol. Mae pobl ifanc wedi creu arddangosfeydd, cynnwys a pherfformiadau cynhwysol, ymgymryd â gweithgarwch amgylcheddol, cymryd rhan mewn pwyllgorau caffael, byrddau a phwyllgorau llywio, ac wedi ymwneud ag ailddatblygu cyfalaf. Mae pobl ifanc wedi datblygu ystod eang o sgiliau treftadaeth a throsglwyddadwy, ac wedi ennill profiad gwaith, hyder, a chynyddu eu lles a rhwydweithiau cymdeithasol.

Yn 2022–2023 buddsoddodd y Gronfa Treftadaeth £2filiwn yn y Rhaglen Newydd i Natur, gan gynnig o leiaf 70 o leoliadau gwaith â thâl i bobl ifanc mewn sefydliadau natur a thirwedd. Mae ystod eang o sefydliadau yn lletya'r lleoliadau 12 mis, wedi'u targedu at bobl ifanc o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector natur a thirweddau, gan gynnwys pobl ifanc o'r Mwyafrif Byd-eang, y rhai o dan anfantais economaidd neu bobl anabl.

## 5. Maethu mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, cyfoethogi'r parth cyhoeddus a chryfhau cymunedau.

Trwy ddatblygu Treftadaeth 2033, mae'r Gronfa Treftadaeth yn datblygu ymagwedd newydd at dargedu cymorth ychwanegol at leoedd blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod treftadaeth yn ganolog i ddulliau adfywio lleol, yn gwella'r parth cyhoeddus ac yn cryfhau balchder mewn lle. Mae hyn wedi cynnwys datblygu offer a fframweithiau newydd ar gyfer staff y Gronfa Treftadaeth i ddod â mewnwelediad ar y lleoedd rydym yn eu cefnogi ynghyd er mwyn nodi anghenion lleol a chyfleoedd posib.

Yn hydref 2022, bu i'r Gronfa Treftadaeth wahodd mynegiadau o ddiddordeb mewn dau grant a fyddai'n cyflwyno cyfleoedd unigryw i gyfoethogi'r parth cyhoeddus a chryfhau cymunedau. Dyfarnwyd £5miliwn i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i ehangu eu hymagwedd Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth, er mwyn i 10–13 o ymddiriedolaethau treftadaeth ar draws y DU wella a rheoli adeiladau hanesyddol sy'n wynebu'r cyhoedd. At hynny, fel y nodir uchod, gwnaeth y Gronfa Treftadaeth grant o £1.9miliwn i'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol i gynyddu gallu mannau addoli i ofalu am eu treftadaeth.

## 6. Cefnogi ac adeiladu gallu ehangder llawn y gweithlu treftadaeth, o wirfoddolwyr i weithwyr proffesiynol, i sicrhau cadwraeth treftadaeth gyda'r sgiliau priodol.

Yn 2022–2023 buddsoddodd y Gronfa Treftadaeth £2filiwn ychwanegol yn ein prosiectau Cymorth

Busnes a Menter. Caniataodd hyn i 280 o sefydliadau ychwanegol elwa o amrywiaeth o gynigion i weithio gyda rhaglenni cymorth busnes a datblygu menter wedi'u teilwra i'r gwahanol gyd-destunau ar draws y DU. Mae adnoddau a gwerthusiadau allweddol a gynhyrchwyd gan y saith carfan sgiliau busnes a menter bellach ar gael ar-lein. Dyma nhw:

- Heritage Compass: Gwerthuso
- Thrive Northern Ireland
- Rebuilding Heritage: Y Gynghrair Treftadaeth
- Surviving to Thriving: Museums Galleries Scotland
- Heritage Trade Up: School for Social Entrepreneurs
- Steps to Sustainability: Social Enterprise Academy

Mae'r seithfed rhaglen, sef Catalydd Cymru dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn cael ei chyflwyno ar draws Cymru ar hyn o bryd.

## 7. Symbylu arloesedd a rhagoriaeth trwy annog arfer da a chyflawni safonau uchel y gellir darparu tystiolaeth ohonynt.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd Cronfa Arloesedd newydd fel menter beilot i annog rhagoriaeth ac arbrofi o bob rhan o dreftadaeth y DU, gan ddyfarnu 35 o grantiau i gefnogi sefydliadau treftadaeth i ddatblygu a phrofi syniadau newydd drwy gymorth strwythuredig a dysgu gan gymheiriaid. Mae cam cychwynnol yr ariannu'n canolbwyntio ar greu gweithlu treftadaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

## 8. Sicrhau y dosberthir arian ar gyfer prosiectau nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat, sy'n hybu'r budd cyhoeddus yn y tymor hir.

Dyfernir grantiau mwy dros £100,000 y Gronfa i sefydliadau nid-er-elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw. Gall perchnogion preifat ymgeisio am grantiau gwerth hyd at £100,000 yn unig trwy ein Rhaglenni Agored. Mae angen hefyd i'r prosiectau hyn gyflwyno deilliannau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso unrhyw elw preifat yn sylweddol.

Mae ein grantiau Menter Treftadaeth yn cefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a danddefnyddir, sy'n adfeiliedig neu mewn perygl, gan gynnwys at ddibenion tai. Rydym yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn pan fyddant yn cefnogi dichonoldeb y cynllun arfaethedig yn gyffredinol. Gall y mathau hyn o brosiectau gael eu harwain gan sefydliadau er elw mewn cydweithrediad â sefydliadau nid-er-elw.

## 9. Datblygu amcanion datblygu cynaliadwy.

Trwy ofyniad cynaladwyedd amgylcheddol y Gronfa Treftadaeth, rydym yn gosod y safon ar gyfer cynaladwyedd y prosiectau rydym yn eu cefnogi ac rydym hefyd yn cynnig cymorth i brosiectau drwy'r Rhwydwaith Fit for the Future.

Rydym wedi gosod targed datgarboneiddio ar gyfer ein gweithrediadau ein hunain i gyrraedd sero-net erbyn 2030 ac wedi comisiynu prosiect ymchwil i'n helpu ni i wella ein harfer adrodd, a diffinio ymagwedd at fesur effaith amgylcheddol y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu.

Eleni, fe wnaethom barhau i gefnogi Gwobr Prosiect Cynaliadwy y Flwyddyn i Amgueddfeydd a Threftadaeth er mwyn amlygu, dathlu a lledaenu arfer da o ran ymagweddau syml, fforddiadwy a hawdd eu trosglwyddo at gynaladwyedd yn ogystal ag arfer mwy arloesol i brosiectau cyfalaf amgylcheddol gynaliadwy.

## 10. Gostwng amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob ardal o'r Deymas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir.

Trwy gydol 2022–2023 canolbwyntio y grantiau a ddyfarnwyd gennym ar yr ardaloedd o'r wlad â'r lefelau uchaf o angen cymdeithasol ac economaidd, fel y'u mesurir drwy'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog (IMD). Rydym yn defnyddio data ar amddifadedd gan bob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig i olrhain ein perfformiad yn erbyn

y mesur hwn o ran y nifer o brosiectau a gefnogir a'r symiau a ddyfernir. O gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd 32% i brosiectau yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad. Cymerir y mesuriad ar gyfer y dangosydd hwn o safle cyffredinol pob awdurdod lleol, wedi'i fynegi fel y safle o fewn set ddata Cymru, Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon. O'i fesur yn nhermau'r cyfanswm a ddyfarnwyd, aeth 28% i ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

## 11. Gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, i sicrhau effaith gadarnhaol cyllid y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys gwerthuso prosiectau a rhannu data pan fo'n briodol.

Bu i ni gydweithio drwy gydol 2022–2023 gyda sefydliadau eraill, drwy Fforwm y Loteri a gyda dosbarthwyr unigol hefyd. Bu i ni gwblhau pedwaredd flwyddyn o waith gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr ar y Cynllun Great Place drwy gyhoeddi ein gwerthusiad o effaith yr ariannu ar draws y DU a thrwy gyfres o astudiaethau achos. Bu i ni gynnal gweminarau a hyrwyddiadau ar y cyd hefyd gyda'n partneriaid ar Pwls Treftadaeth, gan gynnwys seminar a gyd-gynhaliwyd gyda Historic England, NatureScot a Built Environment Forum Scotland.

Wrth i ni ddatblygu ein hymagwedd at gefnogi lleoedd yn ein strategaeth newydd, byddwn yn datblygu dull iteraidd o gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu ein hymagwedd ein hunain at ystyried anghenion treftadaeth lleoedd, yn seiliedig ar fynegai sy'n dwyn ynghyd ffynonellau data ar anghenion, cyfleoedd a photensial treftadaeth. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022–2023, cyhoeddodd a rhannodd y Gronfa Treftadaeth ganfyddiadau ein dau Gynllun Great Place, gan ddangos sut y gall ymagwedd leol gyfunol at ddiwylliant a threftadaeth gyflwyno canlyniadau cadarnhaol o ran adfywio lleol a chreu lleoedd. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda llywodraethau ar draws y DU i sicrhau bod treftadaeth mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ffyniant bro, bargeinion twf dinesig a dulliau datganoli.

## 12. Cynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri Genedlaethol.

Maes ffocws allweddol a nodwyd fel blaenoriaeth i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol oedd gwella cydnabyddiaeth o grantiau. Cyflwynwyd canllawiau cydnabyddiaeth wedi'u diweddaru i ddeiliaid grantiau gan y Gronfa Treftadaeth yn 2021. Mae hyn wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan sefydliadau treftadaeth ac yn ystod 2022–2023 bu i ni weithio ar rai cerrig milltir mawrion gan gynnwys enwi oriel gyntaf Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn yr Oriel Bortreadau Genedlaethol yn Llundain. Fodd bynnag, mae adborth eleni wedi nodi y byddai canllawiau manylach ar rai agweddau ar gydnabyddiaeth yn cael eu croesawu. Gan hynny, rydym wedi datblygu pecyn cymorth cydnabyddiaeth newydd sydd i'w gyflwyno yn 2023 i gynnwys mwy o fanylion am ein gofynion ar gyfer grantiau bach, canolig a mawr, sy'n gymesur â maint y grant a roddwyd, ynghyd â chanllawiau cadarn ynghylch hawliau enwi, defnyddio asedau brandio a chydnabyddiaeth yn y wasg.

## 13. Mynnu elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn sicrhau isafswm lefelau o gyllid partneriaeth gan ddibynnu ar lefel y grant y maent yn ymgeisio amdano. Nid yw'n ofynnol i geisiadau am lai na £100,000 gael unrhyw gyllid partneriaeth ond gallant nodi cyfraniadau arian parod yn unig ar y ffurflen gais. Mae'n ofynnol cael isafswm o 5% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau rhwng £100,000 ac £1miliwn. Mae'n ofynnol cael isafswm o 10% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau o £1miliwn a mwy. Yn achos yr isafswm gofyniad 5 a 10% gellir darparu'r cyllid partneriaeth ar ffurf arian parod, ar ffurf nad yw'n arian parod neu fel amser gwirfoddolwyr.

**14. Yr angen i:**

**a) arian sy'n cael ei ddosbarthu gael ei gymhwyso dim ond i brosiectau sydd â diben penodol ac wedi'u cyfyngu gan amser**

**b) sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a chyngor arbenigol gofynnol i wneud penderfyniadau ar bob cais, ac**

**c) ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol prosiectau**

Mae'r prosiectau a gefnogwn yn rhai penodol sydd â chyfyngiad amser arnynt. Rydym yn cyfyngu ein cymorth presennol i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau. Rydym yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr sy'n esbonio i ba raddau y bydd y prosiectau y maent yn eu cyflwyno'n gwneud achos cadarn dros fuddsoddi, y byddant yn cyflwyno ein erbyn ein naw canlyniad, eu bod yn ddichonol ac yn gynaliadwy yn ariannol ac yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos dichonoldeb ariannol eu prosiect, wedi'i dorri i lawr i gostau cyfalaf, gweithgareddau a chostau eraill a chan ddangos pa gyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am ragamcaniadau llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy eu maint, incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect dros yr hir dymor.

**15. Pan wneir cais am gyllid cyfalaf, yr angen am:**

**a) gynllun busnes clir sy'n dangos sut y bydd unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw yn cael eu talu am gyfnod rhesymol, ac**

**b) sicrhau bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Porth yr Awdurdod Prosiectau Mawr**

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn mynnu bod pob dyfarniad grant dros £250,000 yn darparu cynllun busnes gyda'u cais cam datblygu, sydd wedyn yn cael ei ddiweddaru gyda'u cais cam cyflwyno. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, gan adlewyrchu ein diddordeb yng ngallu'r sefydliad i gynnal buddiannau ein buddsoddiad dros y tymor hir. Rydym yn darparu canllawiau i grantïon gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, cynllunio cadwraeth a rheoli a chynnal a chadw tirweddau, parciau a gerddi i helpu cyfeirio a dylanwadu ar gynllunio busnes.

Mae'r prosiectau a ariannwyd o dan ein Fframwaith Strategol 2013–2019 blaenorol yn cael eu monitro'n unol â'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn cais y grantï gan gynnwys unrhyw wybodaeth atodol sydd mewn cynllun gweithgareddau, rhagamcaniadau llif arian a thabl incwm a gwariant.

Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys dros werth £200,000 o waith cyfalaf, mae cynllun rheoli a chynnal a chadw sy'n manylu sut y byddai'r ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau eu prosiect yn ofynnol gennym.

Ar gyfer grantïon sy'n derbyn dyfarniadau gwerth dros £2miliwn, rydym yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes y prosiect a gyflwynir gyda chais y rownd gyflwyno. At hynny, mae'n ofynnol i brosiectau sydd ag elfen gadwraeth sylweddol gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal a chadw'r dreftadaeth dros y tymor hir.

Mae'r holl brosiectau'n mynd trwy broses caniatâd i ddechrau sy'n darparu porth priodol gan ddilyn cymeradwyaeth o'n buddiant yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau cyfalaf rydym hefyd yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gamau'r Cynllun Gwaith RIBA). Rydym yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol ar gyfran sylweddol o brosiectau sy'n derbyn dros £250,000 i helpu sicrhau bod prosiectau'n cyflwyno yn erbyn y dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i'r Gronfa Treftadaeth yn cael eu deall a'u rheoli, y cyflawnir arfer gorau ym mhob maes critigol a bod yr adrodd a rheoli ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## 16. Annog a chefnogi'r defnydd priodol o fodelau ariannu creadigol (benthyciadau, mentrau ariannu cymunedol, ariannu torfol etc) i gynyddu dichonoldeb prosiectau, cynaladwyedd ariannol a'r buddsoddiad cyffredinol mewn treftadaeth.

Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi peilota ariannu all gael ei ad-dalu er mwyn ailgychwyn ac egnïo'r incwm a gynhyrchir gan sefydliadau treftadaeth. Mae'r Rhaglen Benthyciadau Adferiad Treftadaeth a Chydnerthedd yn fuddsoddiad cyllid ad-daladwy amyneddgar hirdymor sy'n cefnogi'r ymyriadau y mae eu hangen i sefydlogi ac addasu gweithrediad, adeiladu cydnerthedd sefydliadol, ac addasu prosiectau wedi'u rhaglennu i gefnogi adferiad yn sgil y pandemig COVID-19. Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar weithgareddau fel cynllunio adferiad, addasu modelau cyflwyno ac ail-lunio cynlluniau busnes, gan dalu costau i gadw staff hanfodol y mae eu hangen i gyflymu adferiad, a darparu cyfalaf gweithio i gefnogi adferiad. Rydym wedi cymeradwyo wyth buddsoddiad gwerth cyfanswm o £1,008,000, gan gynnwys chwe benthyciad gwerth cyfanswm o £708,000. Bydd y rhaglen yn parhau tan ddiwedd 2028.

Rydym yn fuddsoddwyr partner mewn dwy gronfa fuddsoddi mewn effaith sy'n cynrychioli arloesedd yn y maes diwylliant a threftadaeth. Maent yn ein helpu i gynyddu cwmpas a chyrhaeddiad ein buddsoddiad a cheisio denu buddsoddiad newydd mewn treftadaeth.

Mae'r Gronfa Effaith Treftadaeth yn gronfa buddsoddi cymdeithasol DU gyfan gwerth £7miliwn, a reolir gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF), sy'n darparu cyllid ar ffurf benthyciadau wedi'u teilwra i sefydliadau nid-er-elw i'w helpu i gyflwyno effaith economaidd a chymdeithasol o ganlyniad i ailddefnyddio adeiladau hanesyddol y DU. Mae'r buddsoddiad fel arfer rhwng £25,000 a £500,000 gyda chyfraddau llog o hyd at 6.25% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol.

Mae'r Gronfa Effaith Celf a Diwylliant (ACIF) yn gronfa partneriaeth buddsoddi mewn effaith gwerth £20miliwn, a reolir gan Nesta, sy'n dwyn buddsoddwyr cyhoeddus, preifat a dyngarol ynghyd i gefnogi sefydliadau celfyddydol a threftadaeth gyda chyllid ar ffurf benthyciadau. Mae ACIF yn cefnogi ac yn datblygu potensial menter sefydliadau diwylliannol trwy ddarparu cyllid hyblyg a fforddiadwy a thrwy gefnogi sefydliadau i ddangos a gwerthuso eu heffaith yn well. Mae ACIF yn gronfa 10 mlynedd ar gyfer y DU gyfan gyda benthyciadau rhwng £150,000 ac £1miliwn ar gyfraddau llog rhwng 3% ac 8.5%.

Eleni fe wnaethom ein buddsoddiad cyntaf mewn Cyllid Gwyrdd, drwy Investment Ready Nature yn Yr Alban (IRNS). Mae IRNS yn gynllun grant ar y cyd gyda Sefydliad Esmée Fairbairn a NatureScot sy'n ceisio helpu sefydliadau a phartneriaethau i ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r capasiti i ddefnyddio buddsoddiad preifat a mecanweithiau sy'n seiliedig ar y farchnad i helpu i ariannu'r gwaith o adfer amgylchedd naturiol Yr Alban.

## 17. Cynyddu sgiliau a galluedd digidol a'r defnydd o offer digidol o fewn Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r sector treftadaeth, annog cywain, defnyddio a rhannu deunyddiau treftadaeth digidol yn well ac annog arloesedd digidol.

Mae ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi cynyddu o ran effaith a graddfa yn ystod 2022–2023, gan gyhoeddi dysgu ac adnoddau newydd i wella Sgiliau, hyder ac uchelgais yn y defnydd o ddigidol mewn treftadaeth, o sefydliadau bach sy'n mynd i'r afael â defnyddio technoleg am y tro cyntaf, i gynghreiriau o sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant i filoedd o bobl. Rydym wedi ariannu canllawiau newydd i gefnogi ymagweddau at ddigideiddio, gan gynnwys templed cynllunio a phecyn cymorth i alluogi prosiectau i ddatblygu cynllun ar gyfer digideiddio.

Eleni, bu i ni lansio Hyb Treftadaeth Ddigidol newydd, gan ddwyn ynghyd fewnwelediad a dysgu gan Gymdeithas Marchnata'r Celfyddydau, Prifysgol Leeds a'r Gynghrair Treftadaeth, sydd wedi ymchwilio ac ymgynghori â'r sector i ddod o hyd i'r 100 o gwestiynau digidol sydd fwyaf dybryd i sefydliadau.

Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi cefnogi 17 o brosiectau sydd wedi creu cannoedd o rolau gwirfoddoli digidol ac wedi cefnogi'r gwirfoddolwyr

i ddatblygu eu sgiliau digidol a chreu gwerth newydd ar gyfer eu sefydliadau. Bydd sefydliadau treftadaeth yn caffael safbwyntiau a sgiliau pobl nad ydynt efallai wedi cael cyfle i wirfoddoli o'r blaen ac mae pob prosiect yn cynnig dysgu gwerthfawr i'r sector ehangach.

### 18. Cywain, deall a lledaenu data ar gyrraedd, effaith a chynulleidfa gwaith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a defnyddio'r understanding to improve the ddealltwriaeth honno i wella polisïau a gweithdrefnau gwneud grantiau'r Gronfa Treftadaeth, gan gynnwys cefnogi'r gwaith ar gyfranogiad. Dylid gwneud data mor dryloyw a hygyrch â phosib.

Mae asesiad y Gronfa Treftadaeth o ba mor bell y mae ein gwaith yn cyrraedd yn cynnwys dadansoddiad o'n cofnodion o geisiadau a dyfarniadau. Gwnaethom ddatblygu ein gwasanaeth data agored ymhellach yn 2022–2023 i wneud y setiau data hyn yn gwbl dryloyw. Mae ein data bellach ar gael trwy gronfa ddata Loteri Genedlaethol DCMS, 360 Giving a System Gwybodaeth Grantiau Llywodraeth y DU. O ran systemau cronfa ddata'r Loteri Genedlaethol a 360 Giving, rydym bellach yn cyhoeddi data bob chwarter drwy gydol y flwyddyn ariannol i sicrhau ei fod mor dryloyw a hygyrch â phosib.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r rhestrau a ganlyn yn dangos cynnydd ar brosiectau sydd wedi derbyn £5miliwn neu fwy o arian Loteri hyd at 31 Mawrth 2023.

## Auckland Castle: Creating Faith in a Better Future

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Castell Auckland

**Cyfanswm cost y prosiect**

£32,734,303

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,000,000 (datblygu Ebrill 2013)
£9,000,000 (cyflwyno Mai 2015)
£2,400,000 (cynnydd grant Gorffennaf 2016)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Gwaith cadwraeth a dehongli wedi'i gwblhau ar Balas yr Esgob. Gweithgarwch cyflwyno wedi'i gwblhau. Estyniad y Scotland Wing (Faith Museum) wedi'i gwblhau. Cynllun arddangosfa'r Faith Museum yn ei gamau terfynol a disgwylir iddo agor ym mis Medi.

## Bath Abbey Footprint

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Bath Abbey Parochial Church Council

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,210,499

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£389,000 (datblygu Ebrill 2014)
£10,725,300 (cyflwyno Mawrth 2016)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 97%

**Adroddiad diweddaraf**

Canolfan dreftadaeth newydd Abaty Caerfaddon – y Discovery Centre – wedi'i chwblhau ac yn agor ac mae'r gweithgareddau prosiect sy'n weddill ar y gweill.

Yn ogystal â grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd cynnydd grant Heritage Capital Kickstart gwerth £534,000 gan DCMS ym mis Rhagfyr 2020.

## Black Country Living Museum: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Black Country Living Museum

**Cyfanswm cost y prosiect**

£29,810,000

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£400,000 (datblygu Ebrill 2017)
£9,400,000 (cyflwyno Mawrth 2019)
£2,210,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 14.5%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r Adeilad Croeso Ymwelwyr newydd a'r Ganolfan Addysg a Dysgu ar eu newydd wedd wedi'u cwblhau ac wedi agor. Mae disgwyl i dref hanesyddol y 1940au–1960au ac adeiladau yn yr ardal ddiwydiannol agor yn 2023.

Yn ogystal â'r cynnydd grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gwnaed dyfarniad o £3,740,000 gan Gronfa Heritage Capital Kickstart DCMS i'r prosiect ym mis Rhagfyr 2020.

## Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Prifysgol Aberystwyth (Yr Hen Goleg)

**Cyfanswm cost y prosiect**

£30,578,429

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£849,500 (datblygu Ebrill 2017)
£9,732,300 (cyflwyno Rhagfyr 2019)
£1,378,700 (cynnydd grant Mehefin 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 10%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae caniatâd i ddechrau bellach wedi'i roi ond nid yw'r gwaith cyfalaf wedi dechrau eto.

## Cairngorms 2030: people and nature thriving together

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms

**Cyfanswm cost y prosiect**

£43,199,588

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,715,500 (datblygu Mehefin 2021)
£10,770,000 (grant cyflwyno posib)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Datblygu 33%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r cam datblygu'n gwneud cynnydd, a disgwylir cais llawn am y cam cyflwyno yn 2023.

## Celebrating Scotland's Art: The Scottish National Gallery Project

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Orielau Cenedlaethol Yr Alban

**Cyfanswm cost y prosiect**

£33,602,245

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£4,940,000 (cyflwyno Mai 2016)
£975,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)
£975,000 (cynnydd grant ym mis Mawrth 2023)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 77%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect bron wedi'i gwblhau a disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau ym mis Mawrth gyda digwyddiad agor i'r cyhoedd ddiwedd yr haf.

## Cheshire's Archives: A Story Shared

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer

**Cyfanswm cost y prosiect**

£25,688,736

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£544,900 (datblygu Medi 2019)
£4,455,100 (cyflwyno Tachwedd 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Canolfan Hanes Caer ym mis Chwefror 2023 a Chanolfan Hanes Crewe ym mis Mawrth 2023. Mae caniatâd i ddechrau yn yr arfaeth.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Cotswold Canals Connected

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Ardal Stroud

**Cyfanswm cost y prosiect**

£20,126,800

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£842,800 (datblygu Ebrill 2018)
£8,956,200 (cyflwyno Hydref 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 35%

**Adroddiad diweddaraf**

Cwblhawyd gwaith ar Bont Rheilffordd Ocean yn llwyddiannus yn 2021. Mae gwaith cyfalaf yn digwydd fesul cam gyda gweithgareddau'n digwydd ar hyd y gamlas i gyd.

## Courtauld Connects

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Courtauld Institute of Art

**Cyfanswm cost y prosiect**

£38,378,123

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£650,000 (datblygu Ebrill 2016)
£8,850,000 (cyflwyno Mawrth 2018)
£1,500,000 (cynnydd grant Mawrth 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 86%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau. Agorodd y Courtauld i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2021. Mae gweithgareddau'n parhau. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2023.

## Man Geni David Livingstone

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

The Scottish National Memorial to David Livingstone Trust

**Cyfanswm cost y prosiect**

£9,329,186

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£334,200 (datblygu Mai 2015)
£4,112,900 (cyflwyno Mawrth 2017)
£668,000 (cynnydd grant Tachwedd 2019)
£1,500,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)
£250,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 87%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Ail-agorodd yr adeilad i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2021 gydag adolygiadau cadarnhaol. Cafodd Man Geni David Livingstone agoriad brenhinol ym mis Chwefror 2023.

## Derby Silk Mill – Museum of Making

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfeydd Derby

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,387,243

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£817,300 (datblygu Ebrill 2015)
£8,570,400 (cyflwyno Medi 2017)
£1,307,300 (cynnydd grant Mehefin 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Ditherington Flax Mill, Maltings International Heritage site at the heart of the community

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Historic England

**Cyfanswm cost y prosiect**

£30,382,488

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£465,300 (datblygu Ebrill 2012)
£12,832,300 (cyflwyno Gorffennaf 2013)
£7,894,200 (cynnydd grant Ionawr 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 93%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau. Agorodd canolfan ymwelwyr ac arddangosfa Shrewsbury Flax Mill i'r cyhoedd ym mis Medi 2022. Bydd rhaglenni dysgu a gweithgareddau ar gael o haf 2023. Mae'r adeilad hefyd yn cynnwys pedwar llawr o swyddfeydd newydd.

## First Light at Jodrell Bank

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Prifysgol Manceinion

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,841,749

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£784,800 (datblygu Ebrill 2015)
£11,362,400 (cyflwyno Mawrth 2018)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 93%

**Adroddiad diweddaraf**

Agorodd First Light Pavilion, yr arddangosfa a'r Space Dome ym mis Mehefin 2022 i ganmoliaeth fawr. Mae'r rhaglen weithgareddau'n mynd rhagddi.

## Great Yarmouth Winder Gardens – Reimagining the People’s Palace

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,742,100

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£420,800 (datblygu Mehefin 2021)
£9,556,300 (grant cyflwyno posib)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Datblygu 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae’r cam datblygu wedi dechrau a disgwylir cais y rownd gyflwyno yn 2023.

## Gunnersbury Park Museum regeneration

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Gunnersbury Estate (2026) CIC

**Cyfanswm cost y prosiect**

£14,163,430

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£386,400 (datblygu Gorffennaf 2012)
£4,110,000 (cyflwyno Gorffennaf 2017)
£695,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 00%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Hartlebury Castle

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Hartlebury Castle Preservation Trust

**Cyfanswm cost y prosiect**

£7,239,665

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£413,700 (datblygu Ebrill 2013)
£4,975,100 (cyflwyno Hydref 2014)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Heritage Centre Stage: Reawakening Brighton's Royal Estate – Phase One

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Brighton a Hove

**Cyfanswm cost y prosiect**

£30,012,143

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£176,500 (datblygu Tachwedd 2014)
£4,823,400 (cyflwyno Ionawr 2016)
£500,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 90%

**Adroddiad diweddaraf**

Disgwylir cwblhau ymarferol ym mis Ebrill 2023. Bydd yr adeilad yn agor i'r cyhoedd ym mis Mai 2023 gyda 'Van Gogh Alive' ar gyfer Gŵyl Brighton. Bydd y gweithgareddau'n parhau tan ddiwedd 2023.

Yn ogystal â grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, derbyniodd y prosiect ddyfarniad cynnydd grant o £1,000,000 gan Gronfa Heritage Capital Kickstart DCMS.

## Heritage Takes Centre Stage at Northern Ireland's Grand Opera House

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Iwerddon

**Ymgeisydd**

Grand Opera House Trust

**Cyfanswm cost y prosiect**

£10,134,960

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£242,700 (datblygu Rhagfyr 2017)
£4,557,300 (cyflwyno Mawrth 2019)
£232,000 (cynnydd grant Mawrth 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r Grand Opera House wedi ailagor gyda rhaglen lawn o sioeau, perfformiadau a gweithgareddau.

## HMS Caroline, Belfast

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Iwerddon

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,800,732

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£845,600 (datblygu Ebrill 2013)
£11,540,300 (cyflwyno Medi 2014)
£2,700,200 (cynnydd grant Gorffennaf 2016)
£73,645 (cynnydd grant Chwefror 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Ailagorodd HMS Caroline i ymwelwyr ym mis Mawrth 2023 ac mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Hull: Yorkshire's Maritime City

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Hull

**Cyfanswm cost y prosiect**

£28,865,200

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,368,400 (datblygu Ebrill 2017)
£13,631,500 (cyflwyno Medi 2019)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 41%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo ym mhob maes ac mae'r gwaith o adfer y Goleulong Spurn a'r Arctic Corsair wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Mae gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu'n mynd rhagddynt yn dda.

## Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

National Portrait Gallery

**Cyfanswm cost y prosiect**

£33,581,972

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£900,000 (datblygu Ebrill 2017)
£8,500,000 (cyflwyno Medi 2019)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 81%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2023. Mae gweithgareddau'n parhau. Disgwylir iddi agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2023.

## International Slavery Museum: Igniting Ideas and Action

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

National Museums Liverpool

**Cyfanswm cost y prosiect**

£28,671,000

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£2,958,900 (datblygu Mehefin 2021)
£6,971,100 (grant cyflwyno posib)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 19%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae cam datblygu'r prosiect yn mynd rhagddo a disgwylir cais y rownd gyflwyno yn 2023.

## Kresen Kernow: A Home for Cornwall's Archives

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Cernyw

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,506,591

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£386,800 (datblygu Ebrill 2013)
£11,786,500 (cyflwyno Gorffennaf 015)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## LCT 7074: Resurrecting a D-Day Hero

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

National Museum of the Royal Navy

**Cyfanswm cost y prosiect**

£6,055,460

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£307,500 (datblygu Mehefin 2017)
£4,480,400 (cyflwyno Medi 2018)
£588,700 (cynnydd grant Mai 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Lincoln Cathedral Connected

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cadeirlan Lincoln

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,556,447

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£909,700 (datblygu Mehefin 2015)
£11,456,100 (cyflwyno Ionawr 2017)
£973,600 (dyfarniad cynnydd grant Heritage Capital Kickstart DCMS, Rhagfyr 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Medicine Galleries Project

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Amgueddfa Wyddoniaeth

**Cyfanswm cost y prosiect**

£20,949,628

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£400,000 (datblygu Ebrill 2015)
£7,600,000 (cyflwyno Medi 2016)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 97%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'u cwblhau ac mae gweithgareddau'n parhau.

## Pont Gludo Casnewydd – Atgyweirio, Adnewyddu a Dehongli

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Casnewydd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£17,632,590

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,052,800 (datblygu Ebrill 2018)
£8,756,000 (cyflwyno Rhagfyr 2020)
£1,950,000 (cynnydd grant Mawrth 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 3%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r hen ganolfan ymwelwyr wedi'i dymchwel a'r gwaith tir wedi'i gwblhau ar gyfer y ganolfan newydd. Mae paratoadau manwl ar gyfer atgyweirio'r bont wedi'u cwblhau.

## Norwich Castle: Gateway to Medieval England

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Swydd Norfolk

**Cyfanswm cost y prosiect**

£16,746,470

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£462,400 (datblygu Ebrill 2016)
£8,756,800 (cyflwyno Medi 2018)
£1,372,100 (cynnydd grant Mehefin 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 62%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith adeiladu bellach yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir ei gwblhau ddiwedd 2024. Mae cynigion ar gyfer dehongli ac arddangos yn mynd rhagddynt yn dda.

## Peatland Progress: A New Vision for the Fens

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton

**Cyfanswm cost y prosiect**

£9,715,966

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£207,900 (datblygu Mehefin 2021)
£8,624301 (grant cyflwyno Rhagfyr 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae caniatâd i ddechrau wedi'i roi. Disgwylir i gam caffael y tir gael ei gwblhau ddiwedd mis Mawrth 2023. Digwyddiad lansio wedi'i drefnu ar gyfer haf 2023.

## Plymouth Sound National Maritime Park

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Plymouth

**Cyfanswm cost y prosiect**

£16,256,800

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£921,500 (datblygu Mehefin 2021)
£8,660,600 (grant cyflwyno posib)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Datblygu 6%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r cam datblygu'n mynd rhagddo a disgwylir cais y rownd gyflwyno yn 2023.

## Remaking Beamish

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Beamish

**Cyfanswm cost y prosiect**

£20,842,864

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£603,800 (datblygu Gorffennaf 2014)
£10,891,200 (cyflwyno Hydref 2016)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 58%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae nifer o'r arddangosion newydd bellach wedi'u cwblhau ac ar agor i'r cyhoedd, ac mae eraill yn gwneud cynnydd da. Mae pob agwedd ar y rhaglen dysgu ac ymgysylltu yn gwneud cynnydd da.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Restoring Cleveland Pools to the Heart of the Community

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cleveland Pools Trust

**Cyfanswm cost y prosiect**

£8,214,017

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£6,154,336 (gan gynnwys Dyfarniad Heritage Capital Kickstart)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf i raddau helaeth wedi'i gwblhau gyda rhywfaint o waith ychwanegol i'w wneud eleni.

Yn ogystal â grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, derbyniodd y prosiect grant Heritage Capital Kickstart gwerth £290,000 gan DCMS yn Rhagfyr 2020.

## Revisioning Nottingham Castle – 1,000 years of History

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Nottingham

**Cyfanswm cost y prosiect**

£29,358,400

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£599,500 (datblygu Ebrill 2014)
£13,883,400 (cyflwyno Tachwedd 2016)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Cwblhawyd gwaith cyfalaf i Balas Ducal a'r Ganolfan Ymwelwyr a gwaith tirlunio yn 2021 ac agorodd y Castell i ymwelwyr ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Caeodd y Castell ym mis Tachwedd 2022 ar ôl i Nottingham Castle Trust a oedd yn rhedeg y safle ar ran Cyngor Dinas Nottingham, gael ei ddiddymu. Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol gyda Chyngor Dinas Nottingham a phartneriaid i ddatrys y problemau yn y Castell. Mae Cyngor y Ddinas yn awr yn bwriadu ailagor y Castell a'r tiroedd ym mis Mehefin 2023.

## Revitalisation of the Mining Institute and Creation of the Common Room of the Great North

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

The Common Room of the Great North Ltd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£9,161,610

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£600,000 (datblygu Tachwedd 2016)
£4,100,000 (cyflwyno Mehefin 2018)
£721,000 (cynnydd grant Ionawr 2021)
£249,581 (cynnydd grant Mawrth 2023)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 91%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae gwaith ailddatblygu cyfalaf ar Neville Hall, Newcastle, bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith o gyflwyno'r cynllun gweithgareddau'n parhau.

Yn ogystal â'r cynnydd grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gwnaed dyfarniad o £228,100 gan Gronfa Heritage Capital Kickstart DCMS i'r prosiect ym mis Rhagfyr 2021.

## Reviving an Artist's Birthplace: A National Centre for Gainsborough

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Gainsborough's House Society

**Cyfanswm cost y prosiect**

£8,316,977

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£280,700 (datblygu Medi 2016)
£4,453,100 (cyflwyno Mehefin 2018)
£613,100 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)
£689,000 (cynnydd grant Mawrth 2023)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 85%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf bellach wedi'i gwblhau a bu iddo ailagor yn llwyddiannus i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2022. Disgwylir cwblhau'r prosiect yn hydref 2023.

## Sharing Historic Barts

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

St Bartholomew's Heritage

**Cyfanswm cost y prosiect**

£9,545,028

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£445,731 (datblygu Medi 2021)
£4,926,000 (cyflwyno Tachwedd 2022)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Gwaith dylunio manwl ar waith. Nid yw gwaith ar y safle wedi dechrau eto.

## Silverstone Heritage Experience and Collections and Research Centre

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Silverstone Heritage Ltd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£21,599,651

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£446,000 (datblygu Ebrill 2013)
£8,664,500 (cyflwyno Tachwedd 2016)
£1,300,000 (cynnydd grant ar ffurf benthyciad Gorffennaf July 2019)
£500,000 (cynnydd grant ar ffurf benthyciad Rhagfyr 2019)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Tees-Swale: Naturally Connected

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Partneriaeth AoHNE North Pennines

**Cyfanswm cost y prosiect**

£8,688,051

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£414,200 (datblygu Ebrill 2018)
£5,723,700 (cyflwyno Mehefin 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 31%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae gweithgareddau'r prosiect, gan gynnwys gwaith adferiad natur, hyfforddiant a datblygu sgiliau a mynediad ac ymgysylltu â'r gymuned i gyd ar y gweill bellach ac yn gwneud cynnydd da.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## The Burrell Collection – Refurbishment Project

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Cyngor Dinas Glasgow

**Cyfanswm cost y prosiect**

£58,125,549

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£1,000,000 (datblygu Ebrill 2015)
£14,000,000 (cyflwyno Medi 2017)
£1,500,000 (cynnydd grant Medi 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac wedi ennill nifer o wobrau.

## The Canterbury Journey

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cadeirlan Caergaint

**Cyfanswm cost y prosiect**

£24,892,659

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£930,400 (datblygu Ebrill 2014)
£12,849,500 (cyflwyno Medi 2016)
£975,800 (cynnydd grant Mai 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## The Citizens Theatre redevelopment

**Gwlad neu ardal**

Yr Alban

**Ymgeisydd**

Citizens Theatre

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,030,148

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£500,000 (datblygu Mai 2014)
£4,795,000 (cyflwyno Rhagfyr 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 78%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect yn y cam cyflwyno ac mae gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen.

## The Hold: A Suffolk Archives Service for the 21st Century

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Swydd Suffolk

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,736,843

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£538,100 (datblygu Ebrill 2016)
£10,363,700 (cyflwyno Mawrth 2018)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 93%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. Mae The Hold bellach yn darparu casgliadau archif helaeth sy'n hygyrch i'r cyhoedd, man arddangos ac oriel a adeiladwyd at y diben ac ystafell addysg.

## The North's greatest 'Cathedral of Commerce': Rochdale Town Hall from Cooperation to Common Wealth

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Bwrdeistref Rochdale

**Cyfanswm cost y prosiect**

£14,398,669

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£688,700 (datblygu Ebrill 2018)
£8,256,700 (cyflwyno Medi 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 64%

**Adroddiad diweddaraf**

Dechreuodd y gwaith yn Chwefror 2022 a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym Medi 2023. Mae'r rhaglen ymgysylltu a gweithgareddau'n mynd rhagddi.

## The Piece Hall – Halifax Heritage

**Gwlad neu ardal**

Gogledd Lloegr

**Ymgeisydd**

Calderdale Council

**Cyfanswm cost y prosiect**

£10,770,888

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£239,700 (datblygu Chwefror 2010)
£7,000,000 (cyflwyno Gorffennaf 2012)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf a'r gweithgareddau bellach wedi'u cwblhau.

## Adfywio Castell Y Gelli

**Gwlad neu ardal**

Cymru

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Castell Y Gelli

**Cyfanswm cost y prosiect**

£7,557,605

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£528,600 (datblygu Mawrth 2014)
£4,467,600 (cyflwyno Mai 2016)
£628,100 (cynnydd grant Mawrth 2021)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 98%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau.

## The Renewal of Pitzhanger Manor

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Ealing

**Cyfanswm cost y prosiect**

£11,224,399

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£275,200 (datblygu Mawrth 2012)
£4,419,900 (cyflwyno Mai 2014)
£658,700 (cynnydd grant Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

## Tomorrow's Museum for Dorset: Re-Imagining Dorset County Museum

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Dorset Natural History and Archaeological Society

**Cyfanswm cost y prosiect**

£15,950,992

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£483,900 (datblygu Ebrill 2015)
£11,349,200 (cyflwyno Medi 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 100%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau.

## Tunbridge Wells Cultural & Learning Hub

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,676,120

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£178,900 (datblygu Tachwedd 2015)
£4,294,900 (cyflwyno Mawrth 2018)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Cwblhawyd y gwaith cyfalaf ym mis Rhagfyr 2021. Wedi'i enwi The Amelia, fe agorodd i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2022. Bydd gweithgareddau'n parhau tan fis Mehefin 2024.

Yn ogystal â grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd grant Heritage Capital Kickstart gwerth £675,000 iddynt gan DCMS ym mis Rhagfyr 2020.

## Unlocking the Geffrye

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Ymddiriedolaeth Amgueddfa Geffrye

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,323,366

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£425,300 (datblygu Ebrill 2015)
£11,941,900 (cyflwyno Mawrth 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 95%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau. Agorodd Museum of the Home i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2021 ac mae'r gweithgareddau bron â gorffen.

Yn ogystal â chyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd grant Heritage Capital Kickstart gwerth £692,000 gan DCMS iddynt ym mis Rhagfyr 2020.

## Unlocking the Severn for People and Wildlife

**Gwlad neu ardal**

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

**Ymgeisydd**

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

**Cyfanswm cost y prosiect**

£19,539,350

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£233,100 (datblygu Ebrill 2016)
£10,577,200 (cyflwyno Mehefin 2018)
£590,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 86%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf bron wedi'i gwblhau ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt yn dda. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2023.

## Unlocking the UK's Sound Heritage

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Y Llyfrgell Brydeinig

**Cyfanswm cost y prosiect**

£18,847,834

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£215,900 (datblygu Ebrill 2015)
£9,353,000 (cyflwyno Ebrill 2017)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 73%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r prosiect bron â gorffen.

## We are London: collections, galleries and people in a new museum at West Smithfield

**Gwlad neu ardal**

Llundain a De Lloegr

**Ymgeisydd**

Amgueddfa Llundain

**Cyfanswm cost y prosiect**

£40,423,900

**Swm y grant (dyddiad dyfarnu)**

£402,700 (datblygu Mai 2018)
£4,597,300 (cyflwyno Medi 2020)

**Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd**

Cyflwyno 0%

**Adroddiad diweddaraf**

Mae'r gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo.

E02922622
978-1-5286-4216-3

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022–2023